



Her Majesty's
Inspectorate of
Probation

Arolygiad o wasanaethau troseddau ieuenctid yn:

Caerdydd

Arolygiaeth Prawf EM, Awst 2022

Cydnabyddiaeth

Arweiniwyd yr arolygiad hwn gan Arolygydd EM Mike Lane, gyda chefnogaeth tîm o arolygwyr a chyd-weithwyr o bob rhan o'r Arolygiaeth. Ymunodd cyd-arolygwyr o'r heddlu, iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg ag Arolygiaeth Prawf EM. Hoffem ddiolch i bawb a helpodd i gynllunio a chymryd rhan yn yr arolygiad; ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl heb eu cymorth a'u cydweithrediad.

Rôl Arolygiaeth Prawf EM

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yw arolygydd annibynnol gwasanaethau prawf a throsteddau ieuencid yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adrodd ar effeithiolrwydd gwaith gwasanaethau prawf a throsteddau ieuencid gydag oedolion a phlant.

Rydym yn arolygu'r gwasanaethau hyn ac yn cyhoeddi adroddiadau arolygu. Rydym yn tynnu sylw at arferion da a gwael, ac yn defnyddio ein data a'n gwybodaeth i annog gwasanaethau o ansawdd uchel. Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth ac yn siarad yn annibynnol.

Cofiwch fod yr enwau yn yr enghreifftiau a roddir gydol yr adroddiad hwn wedi cael eu newid er mwyn diogelu pwy yw'r unigolion dan sylw.

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch neges e-bost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf EM
Llawr 1af Canolfan Llysoedd Sifil
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX
Dilynwch ni ar Twitter [@hmiprobation](https://twitter.com/hmiprobation)
ISBN: 978-1-914478-82-6

© Hawlfraint y Goron 2022

Cynnwys

Rhagair	4
Sgoriau	5
Crynodeb gweithredol	6
Argymhellion	14
Cefndir	15
Ffeithiau am y Cyd-destun	17
1. Darpariaeth sefydliadol	19
1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth	21
1.2. Staff.....	25
1.3. Partneriaethau a gwasanaethau	28
1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau	34
Amrywiaeth	37
2. Datrysiadau yn y llys	39
2.1. Asesiad.....	41
2.2. Cynllunio	42
2.3. Gweithredu a chyflawni.....	44
2.4. Adolygu	45
3. Datrysiadau y tu allan i'r llys	47
3.1. Asesiad.....	49
3.2. Cynllunio	51
3.3. Gweithredu a chyflawni.....	52
3.4. Polisi a darpariaeth ar gyfer delio ag achosion y tu allan i'r llys	54
4. Ailsefydlu	57
4.1. Polisi a darpariaeth ailsefydlu.....	57
Atodiad 1: Methodoleg	60
Atodiad 2: Data arolygu	63

Rhagair

Mae'r arolygiad hwn yn rhan o'n rhaglen o arolygiadau o'r gwasanaeth troseddau ieuentid (YOS). Rydym wedi arolygu a sgorio Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuentid (GCI) Caerdydd mewn tri maes eang: y trefniadau ar gyfer darpariaeth sefydliadol y gwasanaeth, ansawdd y gwaith a wneir gyda phlant sy'n cael eu dedfrydu gan y llysoedd, ac ansawdd y datrysiadau y tu allan i'r llys. Yn gyffredinol, mae GCI Caerdydd yn cael sgôr 'Angen Gwella'. Bu i ni hefyd arolygu ansawdd y ddarpariaeth a'r polisi adsefydlu, a oedd yn cael ei ystyried yn 'Dda' ar wahân.

Ail-arolygiad o Gaerdydd oedd hwn, yn dilyn ein hymweliad blaenorol yn 2020, pan roddwyd sgôr 'Annigonol' i'r gwasanaeth. Wedi'i gwblhau fel arolygiad ar y cyd, ochr yn ochr â'n harolygiaethau partner, gwelsom wasanaeth gwell. Er gwaethaf cyfnod o her ac ansefydlogrwydd sylweddol, drwy gydol pandemig Covid-19 a gweithredu strwythur sefydliadol newydd ar gyfer y GCI, mae'r gwasanaeth wedi gwneud cynnydd pwysig. Mae penodi cadeirydd bwrdd annibynnol wedi sicrhau bod gan y GCI fwy o amlygrwydd, gwell arweinyddiaeth ac adnoddau pwrpasol. Mae trefniadau llywodraethu gwell wedi sicrhau bod ffocws clir y bwrdd rheoli yn awr ar wella canlyniadau i blant y GCI.

Er eu bod wedi gwella mewn sawl agwedd, nid yw pob trefniant gyda phartneriaid a darparwyr yn effeithiol ac nid yw'r holl bolisiau a chanllawiau allweddol o'r ansawdd gofynnol i staff gyflawni eu gwaith. Fel y dywedwyd, mae morâl y staff wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf, mae beichiau gwaith yn cael eu hystyried yn rhai y gellir ymdopi â hwy ac mae amllder yr oruchwyliaeth yn gwella.

Yn yr achosion penderfyniadau llys a archwiliwyd gennym, cefnogi ymatal oedd y maes gwaith cryfaf. Mae'n werth nodi bod cyfleoedd i integreiddio cymunedol yn cael eu hyrwyddo'n gyson ar gyfer plant y GCI, gan gynnwys mynediad at wasanaethau ar ôl goruchwyliaeth. Fodd bynnag, roedd ein harchwiliadau achos yn tynnu sylw at ddiffygion yn ansawdd y gwaith a wnaed i fynd i'r afael ag anghenion diogelwch a lles y plentyn, a'r risg o niwed a berir gan rai plant i eraill. Roedd sgoriau a sgoriau gwaith achos ar ôl y llys wedi gwella'n sylweddol ers ein harolygiad diwethaf, yn enwedig ar gyfer cynllunio a darparu. Roeddem hefyd yn falch o weld gwaith o ansawdd da mewn perthynas ag arferion adsefydlu, gyda chymorth sylw gan fwrdd rheoli'r GCI. Fodd bynnag, nid oedd goruchwyliaeth y rheolwyr dros waith datrysiadau yn y llys a'r tu allan i'r llys yn hyrwyddo ymarfer gwaith achos o ansawdd uchel yn gyson, ac mae hwn yn faes y mae angen ei ddatblygu.

Yn eu sgôr gyffredinol o 'Angen gwella', mae llawer i'w ganmol am Wasanaeth Cyfiawnder Ieuentid Caerdydd a'r bartneriaeth. Bu trywydd clir o ran cynnydd ers ein harchwiliad blaenorol ac mae sylfeini sefydlog ar gyfer parhau i adeiladu gwasanaeth o ansawdd uchel. Cawsom ein calonogi gan ymrwymiad ac ymwybyddiaeth uwch arweinwyr o'r materion y mae angen rhoi sylw iddynt a rydym yn gwneud nifer o argymhellion a fydd yn galluogi'r GCI i wella ymhellach.



Justin Russell















Prif Arolygydd Prawf EM

Sgoriau

Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd

Sgôr 11/36

Dechreuodd y gwaith maes: Mawrth/Ebrill 2022

Sgôr gyffredinol		Angen gwella	
1.	Darpariaeth sefydliadol		
1.1	Llywodraethu ac arweinyddiaeth	Angen gwella	
1.2	Staff	Angen gwella	
1.3	Partneriaethau a gwasanaethau	Angen gwella	
1.4	Gwybodaeth a chyfleusterau	Angen gwella	
2.	Datrysiadau yn y llys		
2.1	Asesu	Annigonol	
2.2	Cynllunio	Annigonol	
2.3	Gweithredu a chyflawni	Angen gwella	
2.4	Adolygu	Annigonol	
3.	Datrysiadau y tu allan i'r llys		
3.1	Asesu	Angen gwella	
3.2	Cynllunio	Da	
3.3	Gweithredu a chyflawni	Da	
3.4	Polisi a darpariaeth ar gyfer delio ag achosion y tu allan i'r llys	Angen gwella	
4.	Ailsefydlu		
4.1	Polisi a darpariaeth ailsefydlu	Da	

Crynodeb gweithredol

Yn gyffredinol, mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) Caerdydd yn cael sgôr 'Angen Gwella'. Cafodd y sgôr hon ei phennu drwy arolygu'r GCI mewn tair rhan o'i waith, y cyfeirir atynt fel 'parthau'. Rydym yn arolygu yn erbyn 12 o 'safonau' craidd, a rennir rhwng y parthau. Mae'r safonau'n seiliedig ar fodelau a fframweithiau sefydledig, sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth, dysg a phrofiad. Eu nod yw sbarduno gwelliannau yn ansawdd y gwaith gyda phlant sydd wedi troseddu.¹ Y rheolau sgorio a gyhoeddir sy'n cynhyrchu sgôr gyffredinol y GCI.² Bu i ni arolygu ansawdd y ddarpariaeth a'r polisi adsefydlu ar wahân, a rhoi sgôr 'Da' i'r gwaith hwn. Mae'r canfyddiadau a'r sgoriau dilynol yn y parthau hynny wedi'u disgrifio isod.

Darpariaeth sefydliadol

Yn dilyn ein harolwg blaenorol o Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd yn 2020, roedd gennym bryderon difrifol am effeithiolrwydd y ddarpariaeth sefydliadol. Methodd llywodraethu ac arweinyddiaeth y GCI, y staffio, y bartneriaeth a'r gwasanaethau, a'r wybodaeth a'r cyfleusterau â chyrraedd safon dderbyniol.

Nid oedd strwythur y GCI yn ei alluogi i ddarparu gwasanaeth o safon uchel. Ychydig o ddealltwriaeth a gafwyd o'r heriau sy'n wynebu plant sy'n cael eu goruchwyllo gan y GCI. Nid oedd anghenion plant yn cael sylw, ac nid oedd plant yn gallu cael gafael ar rai gwasanaethau yn brydlon neu ddim o gwbl. Nid oedd aelodau'r Bwrdd yn effeithiol o ran dwyn y GCI na'i bartneriaid i gyfrif ac nid oeddent yn pennu cyfeiriad strategol na blaenoriaethau ar gyfer y GCI.

Ar draws gwaith datrysiadau yn y llys a'r tu allan i'r llys, sgoriwyd ansawdd yr asesiadau a'r gwaith cynllunio, gweithredu a darparu gwasanaethau, ac adolygu cynnydd achosion fel 'Annigonol'. Yn rhannol, roedd ansawdd yr ymarfer yn wael oherwydd bod rheolwyr yn goruchwyllo achosion yn aneffeithiol. Gwnaethom ni, a'n harolygiaethau partner, nifer o argymhellion i uwch arweinwyr ac arweinwyr gweithredol ar draws partneriaeth y GCI, ac roeddem yn falch o weld cynnydd yn erbyn llawer o'r argymhellion hyn yn yr ail arolygiad hwn yn 2022.

Cyfwelwyd rheolwr y GCI a chadeirydd y bwrdd rheoli. Cynhaliwyd cyfarfodydd gydag aelodau eraill y bwrdd a rhanddeiliaid allweddol, yn ogystal â staff a gwirfoddolwyr y GCI.

Mae penodi cadeirydd y bwrdd annibynnol ym mis Ebrill 2020 wedi bod yn hollbwysig o ran galluogi'r bartneriaeth i bennu agenda gadarnhaol ar gyfer newid a gwella. O ganlyniad, mae mwy o eglurder ynghylch gweledigaeth a phwrpas y bartneriaeth. Mae'r trefniadau llywodraethu wedi newid, er mwyn sicrhau mai'r bwrdd rheoli yw'r arena lle canolbwyntir yn benodol ar blant y GCI. Mae gan aelodau'r Bwrdd statws priodol ac mae ganddynt y lefel briodol o awdurdod i wneud penderfyniadau strategol effeithiol ac i ymrwymo adnoddau.

¹ Mae safonau Arolygiaeth Prawf EM ar gael yma:

<https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-work/our-standards-and-ratings/>.

² Mae pob un o'r 12 safon yn cael ei sgorio ar raddfa o 0 i 3, lle mae 'Annigonol' = 0; 'Angen gwella' = 1; 'Da' = 2; 'Rhagorol' = 3. Mae adio'r sgoriau hyn yn creu cyfanswm sgôr sydd rhwng 0 a 36, sy'n cael ei bandio i greu sgôr gyffredinol, fel a ganlyn: 0-6 = 'Annigonol', 7-18 = 'Angen gwella', 19-30 = 'Da', 31-36 = 'Rhagorol'.

Mae darparu staff gan sefydliadau partner yn ddigonol. Mae morâl y staff wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf, ac maent yn teimlo bod modd rheoli'r llwyth gwaith.

Mae rheolwr gweithredol y GCI wedi dangos gwytnwch a dycnwch i roi newidiadau ar waith ac i wneud penderfyniadau anodd i symud y gwasanaeth yn ei flaen, ond, o ystyried maint y gwaith gwella sydd ei angen, mae angen i uwch arweinwyr sicrhau ei bod yn cadw eu cefnogaeth barhaus ac amlwg. Er bod tîm rheoli'r GCI yn gymharol newydd, mae'n cael effaith gadarnhaol. Fodd bynnag, roeddem yn bryderus bod y rhychwant presennol o gyfrifoldebau rheoli a gwella gwasanaethau yn fawr. Nid yw'r broses werthuso'n cael ei defnyddio'n effeithiol nac yn gyson, er bod amllder yr oruchwyliaeth wedi gwella yn y cyfnod cymharol fyr ers penodi'r tîm rheoli parhaol newydd ym mis Chwefror 2022.

Mae gan y GCI strategaeth datblygu'r gweithlu, ond mae hyn yn gofyn am adolygiad ffurfiol a chwblhau cynllun datblygu'r gweithlu wedi'i ddiweddarau. Yr her i'r tîm rheoli newydd yw sicrhau bod ansawdd yr oruchwyliaeth, y myfyrio, y hyfforddi a'r gefnogaeth yn gwella'n sylweddol, a dylai bwrdd y GCI ei gefnogi yn y gwaith hwn.

Mae gwell dealltwriaeth o broffil carfan y GCI, o'i gymharu ag arolygiad blaenorol 2020. Mae gan y bartneriaeth fynediad at nifer, ystod ac ansawdd digonol o wasanaethau, er bod angen gwella'r ddarpariaeth iechyd a'r llwybrau ymhellach. Serch hynny, mae'r trefniadau gyda llawer o bartneriaid statudol a darparwyr eraill wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf. Nid yw pob un o'r polisiâu a'r canllawiau allweddol o ansawdd digonol i alluogi staff i gyflawni eu gwaith. Unwaith eto, er bod pethau wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf, mae tystiolaeth gymysg o systemau sicrhau ansawdd a pherfformiad yn arwain at welliant, ac o ddysgu o brosesau archwilio, arolygu ac adolygu. Mae hwn yn faes lle mae angen mwy o gysondeb.

Mae'r GCI wedi bod drwy gyfnod o ailstrwythuro, mewn ymateb i ganfyddiadau ein harolygiad blaenorol. Mae'r ailstrwythuro hwn, ochr yn ochr â'r heriau a ddaeth yn sgil Covid-19 a'r cyfyngiadau symud, yn golygu bod y GCI wedi wynebu cyfnod o ansefydlogrwydd a her sylweddol. Roedd effaith hyn yn amlwg mewn rhai o'r achosion a aseswyd yn ystod cyfnod ein harolygiad. Fodd bynnag, roedd uwch arweinwyr yn agored ac yn gwbl ymroddedig i'r her i barhau â'u taith i wella, ac roeddent yn ymwybodol o'r prif heriau a risgiau i'r gwasanaeth.

Roedd y prif ganfyddiadau am ddarpariaeth sefydliadol fel a ganlyn:

- Mae gan y GCI weledigaeth a strategaeth glir. Mae cadeirydd bwrdd annibynnol y GCI yn uchel ei barch, yn weladwy ac wedi llywio bwrdd y GCI.
- Mae ymrwymiad ac adnoddau gan Brif Swyddog Gweithredol ac arweinwyr gwleidyddol Cyngor Caerdydd wedi bod yn amlwg, ynghyd â chefnogaeth i reoli a datrys rhai problemau adnoddau dynol heriol cyn gweithredu strwythur newydd y GCI.
- Mae'r bartneriaeth wedi strwythuro ac egluro ei threfniadau llywodraethu a llinellau atebolrwydd. Ceir presenoldeb da yn y bwrdd, gydag aelodau o'r bwrdd yn ymroddedig, ac yn ddigon uchel eu statws. Mae cysylltiadau â byrddau strategol eraill yn amlwg.
- Mae rheolwr gweithredol y GCI wedi goruchwyllo ac ysgogi newid mewn diwylliant ac wedi dangos gwytnwch a dycnwch i symud y gwasanaeth yn ei flaen.
- Mae gan y GCI amrywiaeth o staff partneriaeth ac ar secondiad – gan gynnwys swyddogion heddlu, swyddog prawf, gweithiwr addysg, hyfforddiant

a chyflogaeth (ETE), gweithiwr iechyd (therapydd celf), gweithiwr ymddygiad rhywiol niweidiol a gweithiwr camddefnyddio sylweddau.

- Adroddir bod llwythi gwaith ymarferwyr yn hawdd eu rheoli ac mae digon o hyfforddiant ar gael i staff.

Ond:

- Mae angen i is-bwyllgor y bwrdd adennill momentwm, gwybodaeth ac ymrwymiad – gwelsom dystiolaeth anghyson o gydgysylltu rhwng arweinyddiaeth a gweithgarwch strategol a gweithredol.
- Mae trosiant tîm rheoli'r GCI wedi effeithio ar ansawdd a chraffu ar arferion rheoli achosion. Mae cyfrifoldebau rheolwyr canol presennol o ran rheoli a gwella gwasanaeth yn rhy fawr.
- Mae diffyg eglurder strategol a gweithredol ynghylch yr ystod lawn o ddarpariaeth iechyd sydd ar gael i'r GCI, ac mae llwybrau ar gyfer plant y GCI yn anodd eu defnyddio, yn cael eu gohirio a/neu'n aneglur.
- Nid yw llawer o'r staff wedi cael gwerthusiad ac mae'r prosesau goruchwylio ond wedi bod yn rheolaidd yn ystod y ddau i dri mis diwethaf.
- Er bod llawer o bolisiau wedi cael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y bwrdd a'i is-bwyllgor, nid yw'r craffu angenrheidiol wedi bod ar rai ohonynt ac maent yn cynnwys diffygion ac anghywirdebau sylweddol.
- Mae bylchau yn y dadansoddiad o ddata allweddol i gefnogi dealltwriaeth o ganlyniadau ac i lywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Datrysiadau yn y llys

Edrychwyd yn fanwl ar 12 dedfryd gymunedol ac un ddedfryd o garchar a reolir gan y GCI. Rydym hefyd wedi cynnal naw cyfweiliad gyda'r rheolwyr achos perthnasol. Roeddem wedi edrych ar ansawdd asesu, cynllunio, gweithredu a chyflawni gwasanaethau, ac adolygu. Archwiliwyd pob un o'r elfennau hyn mewn perthynas â'r gwaith a wnaed i fynd i'r afael ag ymataliad, i gadw'r plentyn yn ddiogel a chadw pobl eraill yn ddiogel.

Dyma ein canfyddiadau allweddol ynghylch datrysiadau yn y llys:

- Roedd gwaith datrysiadau yn y llys yn seiliedig ar gryfderau, gyda lefel gyson o gyfranogiad gan blant a'u rhieni neu ofalwyr ym mhob agwedd ar waith achos.
- Roedd gweithredu a darparu i fynd i'r afael ag ymatal, a diogelwch a lles yn cael ei ystyried yn 'Dda'.
- Roedd tystiolaeth dda o gynllunio ar gyfer integreiddio cymunedol dilynol/gwasanaethau eraill ar ôl i'r GCI gyfranogi.
- Bu ymarferwyr yn gweithio'n galed ac yn hyblyg i gynnal y ddarpariaeth o wasanaethau, er gwaethaf cyfyngiadau Covid-19.

Ond:

- Roedd diffyg ansawdd a dadansoddi mewn asesiadau, yn benodol mewn perthynas â diogelwch a lles, a'r risg o niwed i eraill.

- Roedd cynllunio i fynd i'r afael ag ymatal, diogelwch a lles, a'r risg o niwed i eraill yn wael, nid oedd wedi'i alinio ag asiantaethau eraill ac nid oedd yn rhoi sylw i drefniadau wrth gefn.
- Ar draws pob agwedd ar waith achos datrysiadau yn y llys, roedd y sylw i anghenion amrywiol plant yn amrywio o ran ansawdd.
- Roedd y gwaith ar ddioddefwyr a chyfiawnder adferol yn anghyson yn yr achosion a arolygwyd.
- Roedd adolygu diogelwch a lles, a'r risg o niwed i eraill yn wan ac nid oedd digon o fewnbwn gan yr asiantaethau dan sylw, ac ni chafodd cynlluniau parhaus eu haddasu pan oedd angen.
- Roedd goruchwyliaeth rheolwyr ar waith achos datrysiadau yn y llys yn wael iawn.

O'i gymharu ag arolwg 2020, gwelsom well sgoriau archwilio achosion ar gyfer pob un ond un o'r safonau ar gyfer datrysiadau yn y llys, ac yn yr achosion datrysiadau yn y llys a arolygwyd; cefnogi ymatal oedd y maes gwaith cryfaf. Fodd bynnag, roedd ein harchwiliadau achos yn tynnu sylw at ddiffygion yn ansawdd y gwaith a wnaed i fynd i'r afael ag anghenion diogelwch a lles y plentyn, a'r risg o niwed a berir gan rai plant i eraill. Roedd llawer o'r plant hyn yn byw bywydau cymhleth, ac roedd eu troseddau wedi'u cyflawni yng nghyd-destun ymddygiad sy'n peri pryder ehangach a phrofiadau andwyol. Mae angen rhoi mwy o sylw a chraffu ar y gwaith a wneir gyda'r plant hyn.

Ar gyfer asesu, roedd wyth o bob tri ar ddeg yn bodloni ein gofynion ar gyfer ymatal. Fodd bynnag, dim ond chwech o'r 13 achos oedd yn ddigonol mewn perthynas â diogelwch a lles, a dim ond tri o'r 13 achos oedd yn bodloni ein gofynion i fynd i'r afael â'r risg o niwed i eraill. Arweiniodd hyn at ein barn o 'Annigonol' ar gyfer yr elfen hon o'r gwaith. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd yr asesiadau'n seiliedig ar gryfderau ac yn cynnwys plant a'u rhieni neu ofalwyr. Er bod yr arolygwyr yn cytuno â dosbarthiadau diogelwch a lles, a'r risg o niwed i eraill yn y rhan fwyaf o achosion, roedd diffyg ansawdd i'r asesiadau ac nid oeddent yn defnyddio digon o ffynonellau gwybodaeth ychwanegol gan asiantaethau eraill i lywio dadansoddiad rhesymegol.

Pennwyd bod cynllunio'n 'Annigonol', gan fod llai na 50 y cant o'r achosion yn ddigonol ar draws pob agwedd ar y gwaith hwn. O fewn yr achosion a arolygwyd, yn gyson roedd i'r cynllunio ddiffyg aliniad â chynlluniau asiantaethau eraill ac nid oedd yn nodi'r rheolaethau a'r ymyriadau angenrheidiol mewn llawer o'r achosion hynny lle'r oedd ystyriaethau diogelu neu amddiffyn y cyhoedd. Yn benodol, roedd ansawdd y cynlluniau wrth gefn yn wael.

Gweithredu a chyflawni oedd yr elfen gryfaf o waith datrysiadau yn y llys. Roedd y gwasanaeth yn gweithio'n dda i ddarparu gwasanaethau i gefnogi ymatal, a diogelwch a lles, ac roedd y rhain yn bodloni ein disgwyliadau mewn mwyafrif o'r 13 achos. Fodd bynnag, roedd darparu gwasanaethau i fynd i'r afael â'r risg o niwed i eraill yn ddigonol mewn dim ond wyth o'r 13 achos, a ysgogodd y sgôr gyffredinol ar gyfer y safon hon o 'Angen gwella'. Er gwaethaf y cyfyngiadau a ddaeth yn sgil Covid-19, roedd staff y GCI yn gweithio'n hyblyg ac yn defnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau'n dda i feithrin perthnasoedd â theuluoedd a defnyddio dull seiliedig ar gryfderau i ddiwallu anghenion plant. **Roedd yn amlwg bod darparu gwasanaeth yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer integreiddio cymunedol i blant y GCI, gan gynnwys mynediad at wasanaethau ar ôl goruchwyliaeth.**

Roedd adolygu gwaith i fynd i'r afael ag ymatal yn bodloni ein safonau mewn saith o'r 13 achos; fodd bynnag, dim ond mewn chwech o'r achosion roedd adolygu gwaith i gadw'r plentyn yn ddiogel yn ddigonol. Ar gyfer rheoli diogelwch pobl eraill, roedd yr adolygiad yn ddigonol mewn pedwar achos yn unig, a arweiniodd at sgôr gyffredinol o 'Annigonol' ar gyfer y safon hon. Roedd adolygiadau o achosion datrysiadau yn y llys naill ai heb eu cwblhau neu'n hwyr. Yn aml, nid oedd y gwaith adolygu'n cael ei oleuo gan fewnbwn gan asiantaethau eraill ac felly nid oedd yn arwain at addasiadau i'r cynllun gwaith gyda'r plentyn, nac ychwaith yn rhoi sylw i risgiau ac anghenion perthnasol yr achos.

Ar draws pob agwedd ar waith achos, gwelsom arferion amrywiol o ran mynd i'r afael ag amrywiaeth plentyn, ochr yn ochr â gwaith anghyson mewn perthynas â gwaith sy'n ymwneud â dioddefwyr a chyfiawnder adferol yn yr achosion a arolygwyd. Roedd y rheolwyr yn goruchwylio gwaith achos datrysiadau yn y llys yn wael iawn, ac roeddent yn cael eu hystyried yn ddigonol mewn un o'r 13 achos yn unig.

Datrysiadau y tu allan i'r llys

Roeddem wedi edrych ar 25 achos a oedd yn cael eu rheoli gan y GCI a oedd wedi cael eu datrys y tu allan i'r llys. Roedd y rhain yn cynnwys tri rhybudd amodol i bobl ifanc, dau rybuddiad i bobl ifanc ac 20 datrysiad cymunedol. Gwnaethom gyfweld y rheolwyr achos mewn 18 achos.

Roeddem wedi edrych ar ansawdd asesu; cynllunio; a gweithredu a chyflawni gwasanaethau. Archwiliwyd pob un o'r elfennau hyn mewn perthynas â'r gwaith a wnaed i fynd i'r afael ag ymataliad, i gadw'r plentyn yn ddiogel a chadw pobl eraill yn ddiogel. Mae angen i ansawdd y gwaith a wneir ar gyfer pob ffactor fod yn uwch na throthwy penodol ar gyfer pob agwedd o oruchwyliaeth er mwyn iddo gael ei ystyried yn foddhaol.

Rydym hefyd wedi edrych ar ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau.

Wrth arolygu achosion, mae gennym ffiniau sgorio sy'n pennu'r sgôr gyffredinol a ddefnyddir. Yng Ngwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Caerdydd, roedd dros hanner ond llai na dwy ran o dair o'r achosion a arolygwyd yn bodloni ein holl safonau ar gyfer asesu, gan arwain at sgôr 'Angen gwella' ar gyfer yr elfen hon o'r gwaith. Roedd yr asesiadau'n seiliedig ar gryfderau ac yn gymesur, ac roedd mwyafrif helaeth yn cynnwys mewnbwn gan y plentyn a'i rieni neu ofalwyr. Nid oedd dadansoddiad ar gyfer asesu diogelwch a lles plentyn, a byddai'n fuddiol pe bai gwybodaeth gan asiantaethau eraill yn cael ei chynnwys yn fwy cyson, lle bo hynny'n berthnasol.

Roedd cynllunio ar gyfer ymatal yn ddigonol mewn 80 y cant o achosion. Fodd bynnag, roedd y sgôr gyffredinol ar gyfer y safon hon yn seiliedig ar lai o achosion a oedd yn ddigonol mewn perthynas â chynllunio i gadw'r plentyn yn ddiogel ac ar gyfer y risg o niwed i eraill, gan arwain at sgôr 'Da'. Mae'r cynlluniau yn nodi'r cyfleoedd ar gyfer integreiddio cymunedol a mynediad at wasanaethau prif ffrwd ar ôl cwblhau'r gwaith datrysiadau y tu allan i'r llys. Roedd cyfraniad y plentyn a'i rieni neu ofalwyr at gynllunio gweithgaredd yn gyson gryf. Fodd bynnag, o ran diogelwch a lles, a'r risg o niwed i eraill, roedd diffygion yn y cynlluniau wrth gefn.

Roedd gweithredu a darparu mewn perthynas ag ymatal yn ddigonol mewn dros 80 y cant o'r achosion. Fodd bynnag, roedd y sgôr gyffredinol ar gyfer y safon hon yn

seiliedig ar lai o achosion a oedd yn ddigonol mewn perthynas â darparu i gadw'r plentyn yn ddiogel ac ar gyfer y risg o niwed i eraill, gan arwain at sgôr 'Da'. Nododd rheolwyr achos y ffactorau a oedd fwyaf tebygol o gefnogi ymataliad y plentyn a datblygu perthynas waith effeithiol gyda phlant a'u rhieni neu ofalwyr. Roedd y broses o gyflawni'r gwaith yn amserol, yn gymesur ac wedi'i drefnu'n dda, gan ddarparu tystiolaeth dda o gynllunio ar gyfer integreiddio cymunedol olynol/gwasanaethau eraill ar ôl cwblhau cyfranogiad y GCI.

Ar draws asesu, cynllunio a darparu, gwelsom arferion anghyson o ran mynd i'r afael ag amrywiaeth plentyn, ochr yn ochr ag ansawdd gwaith amrywiol mewn perthynas â gwaith cyfiawnder adferol a dioddefwyr yn yr achosion a arolygwyd. Roedd goruchwyliaeth rheolwyr ar waith achos datrysiadau y tu allan i'r llys yn wan, ac roeddent yn cael eu hystyried yn ddigonol mewn dim ond wyth o'r pum achos ar hugain. Wedi dweud hynny, roeddem yn falch o weld bod sgoriau archwilio achosion wedi gwella'n sylweddol ar draws pob un ond un o'r safonau ar gyfer gwaith datrysiadau y tu allan i'r llys. Mae'n werth nodi'r gwelliant yn ansawdd gwaith diogelu ac amddiffyn y cyhoedd ar draws elfennau asesu, cynllunio a chyflawni.

Rhoesom sgôr 'Angen gwella' i bolisi a darpariaeth datrysiadau y tu allan i'r llys. Ceir polisi datrysiadau y tu allan i'r llys (wedi'i ategu gan siart llif proses biwro) sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau, darparu a chyflawni datrysiadau y tu allan i'r llys a gwaith atal/dargyfeirio. Fodd bynnag, nid oedd polisi datrysiadau y tu allan i'r llys y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a phrosesau a pholisiau y tu allan i'r llys Heddlu De Cymru wedi'u halinio, a oedd yn ddiffyg gan fod rhai anghysonderau yn y canllawiau a'r prosesau.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae cyflwyno a gweithredu 'model biwro' ym mis Mawrth 2021 wedi bod yn ddatblygiad arwyddocaol. Mae'r dull gweithredu hwn wedi arwain at ffocws a phroses llawer cliriach o ran cyflawni gwaith y tu allan i'r llys yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn i'r bartneriaeth sicrhau bod y panel gwneud penderfyniadau yn cynnwys yr holl asiantaethau perthnasol yn gyson, a bod y plentyn yn deall y broses yn llawn ac yn gallu cymryd rhan fwy cyfartal ynddi.

O ystyried y gostyngiad sylweddol yn nifer y rhai sy'n ymuno am y tro cyntaf, prin oedd dealltwriaeth y bartneriaeth o sut y gallai'r llwyddiant hwn fod yn gysylltiedig â'r gwaith mewn perthynas â datrysiadau y tu allan i'r llys.

Dyma ein canfyddiadau allweddol ynghylch datrysiadau y tu allan i'r llys:

- Ceir polisi datrysiadau y tu allan i'r llys sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau, darparu a chyflawni datrysiadau y tu allan i'r llys a gwaith atal/dargyfeirio.
- Pennwyd bod cynllunio a darparu datrysiadau y tu allan i'r llys yn 'dda' ar draws pob elfen o ymatal, diogelwch a lles, a'r risg o niwed i eraill.
- Roedd gwaith datrysiadau y tu allan i'r llys yn seiliedig ar gryfderau ac yn cynnwys plant a'u rhieni neu ofalwyr mewn mwyafrif helaeth o achosion.
- Roedd y gwaith a wnaed gyda phlant ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys yn amserol ac yn gymesur, gyda thystiolaeth dda o gynllunio ar gyfer integreiddio cymunedol dilynol/gwasanaethau eraill ar ôl cwblhau gwaith y GCI.

- Roedd cytundebau lefel gwasanaeth rhwng y GCI ac Academi Cyfryngau Caerdydd ar gyfer y prosiect 'Divert'.
- Rheolir plant sy'n destun datrysiadau y tu allan i'r llys ac sy'n cael eu hasesu fel rhai sydd ag anghenion diogelwch a lles uchel neu sy'n peri risg uchel o niwed i eraill drwy drefniadau'r panel rheoli risg.

Ond:

- Mae angen adolygu polisi datrysiadau y tu allan i'r llys y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac nid yw'n cyd-fynd yn ddigonol â pholisi a phrosesau datrysiadau y tu allan i'r llys Heddlu De Cymru.
- Roedd y cynllunio wrth gefn ar gyfer diogelwch a lles, a'r risg o niwed i eraill, yn wan.
- Roedd asesu, cynllunio a darparu mewn perthynas ag anghenion amrywiaeth rhai plant yn anghyson.
- Roedd gwaith dioddefwyr a chyfiawnder adferol yn amrywio o ran ansawdd.
- Roedd y rheolwyr yn goruchwyllo gwaith achos datrysiadau y tu allan i'r llys yn wael.
- Nid oedd dadansoddiad digonol o ddata datrysiadau y tu allan i'r llys i ddeall pam fod cyfraddau newydd-ddyfodiaid tro cyntaf wedi gostwng mor sylweddol, ac felly roedd yna ddealltwriaeth gyfyngedig o'r garfan.
- Mae'r panel gwneud penderfyniadau ar y cyd yn cael ei gadeirio gan yr heddlu, ac er bod gweithwyr proffesiynol eraill yn cyfrannu at drafodaeth cyn y panel, nid yw rheolwyr achos yn mynychu'r panel i gyflwyno eu hasesiad o'r plentyn.

Ailsefydlu

Rydym wedi edrych ar ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer gwaith ailsefydlu, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau. I ddangos y gwaith hwnnw, bu i ni arolygu tri achos a oedd yn cael eu rheoli gan y GCI a oedd wedi cael dedfryd o garchar. Rydym wedi rhoi sgôr 'Da' i ailsefydlu.

Mae ein prif ganfyddiadau am waith ailsefydlu fel a ganlyn:

- Mae polisi adsefydlu clir wedi'i ddatblygu'n ddiweddar, sy'n seiliedig ar egwyddorion adsefydlu adeiladol.
- Dangosodd ymarferwyr y GCI lefel uchel o eiriolaeth ar gyfer plant y GCI sydd yn y ddalfa.
- Roedd y ddarpariaeth a'r gwaith partneriaeth o ansawdd da ar draws y llwybrau allweddol ar gyfer llety, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a gofal iechyd.
- Ceir cyfathrebu da, gyda chysylltiadau gweithio cadarnhaol, rhwng y GCI a staff yr ystâd ddiogeled.
- Mae gan y GCI weithwyr adsefydlu penodol, sy'n gweithio ochr yn ochr â rheolwyr achos i sicrhau perthynas gyson ac i gefnogi anghenion adsefydlu plant sydd yn y ddalfa.

- Mae gan y GCI draciwr adsefydlu, sy'n darparu dadansoddiad fesul achos ac yn monitro'r plant hynny sydd yn y ddalfa. Mae hyn yn gweithredu fel mecanwaith i sicrhau bod yr holl asiantaethau partner perthnasol yn cadw at y llwybrau a'r gwasanaethau perthnasol.

Ond:

- Nid yw'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant adsefydlu penodol – er bod bwriad i ddarparu rhagor o hyfforddiant yn ystod y flwyddyn nesaf.

Argymhellion

O ganlyniad i ganfyddiadau ein harolygiad, rydym wedi gwneud saith o argymhellion y credwn, os cânt eu gweithredu, y byddant yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd gwasanaethau troseddau ieuencid yng Nghaerdydd. Bydd hyn yn gwella bywydau'r plant sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau troseddau ieuencid, ac yn diogelu'r cyhoedd yn well.

Dylai Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Caerdydd:

1. rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol i'r tîm rheoli i weithredu trefniadau cynhwysfawr ar gyfer sicrhau ansawdd a datblygu'r gweithlu
2. defnyddio'r dadansoddiad o anghymesuredd presennol i ddatblygu gwasanaethau ymhellach a sicrhau ffocws mwy cyson ar amrywiaeth yn ei waith achos
3. sicrhau bod is-bwyllgorau'r bwrdd yn adennill momentwm, gwybodaeth ac ymrwymiad i alluogi cydgysylltu cyson rhwng arweinyddiaeth a gweithgarwch strategol a gweithredol.

Dylai Rheolwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Caerdydd:

4. cryfhau ansawdd a chysondeb goruchwyliaeth rheolwyr o ymarfer, i sicrhau bod ansawdd gwaith diogelu ac amddiffyn y cyhoedd yn gwella
5. gwella ansawdd asesu, cynllunio ac adolygu gwaith ar ôl y llys
6. datblygu a diweddarau polisiau, gweithdrefnau a chanllawiau allweddol a fydd yn galluogi'r holl staff a phartneriaid i ddarparu gwaith o ansawdd uchel ac ymateb i broffil ac anghenion yr holl blant sy'n cael eu goruchwyllo gan y GCI.

Dylai Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro:

7. darparu eglurder i staff y GCI ynghylch llwybrau iechyd, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion plant y GCI a'i bod yn cael ei monitro er mwyn sicrhau mynediad, ansawdd a phrydlondeb priodol.

Cefndir

Mae timau troseddau ieuenctid yn gweithio gyda phlant rhwng 10 a 18 oed sydd wedi cael eu dedfrydu gan lys, neu sydd wedi dod i sylw'r heddlu oherwydd eu hymddygiad troseddol ond heb gael eu cyhuddo – yn hytrach, cawsant eu trin y tu allan i'r llys. Mae Arolygiaeth Prawf EM yn arolygu'r agweddau hyn ar y gwasanaethau troseddau ieuenctid.

Mae Timau Troseddau Ieuenctid yn bartneriaethau statudol, ac maent yn amlddisgyblaethol, er mwyn delio ag anghenion y plentyn cyfan. Rhaid iddynt gael staff o wasanaethau addysg a gofal cymdeithasol yr awdurdod lleol, yr heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r gwasanaethau iechyd lleol.³ Mae'r rhan fwyaf o Dimau Troseddau Ieuenctid wedi'u lleoli mewn awdurdodau lleol, ond gall hyn amrywio.

Mae gwaith y Timau Troseddau Ieuenctid yn cael ei lywodraethu a'i siapia gan amrywiaeth o ddeddfwriaethau a chanllawiau sy'n benodol i'r sector cyfiawnder ieuenctid (fel Safonau Cenedlaethol Cyfiawnder Ieuenctid) neu sy'n berthnasol ar draws y sector cyfiawnder troseddol (er enghraifft, y canllawiau Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd). Mae Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr yn darparu rhywfaint o gyllid i'r Timau Troseddau Ieuenctid. Mae hefyd yn monitro eu perfformiad ac yn cyhoeddi canllawiau ynghylch sut y dylid gwneud pethau.

Caerdydd yw'r awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru. Mae hefyd wedi gweld y twf mwyaf yn y boblogaeth yng Nghymru dros y degawd diwethaf a rhagwelir y bydd yn tyfu'n gyflymach nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru. Dros yr 20 mlynedd nesaf, rhagwelir y bydd poblogaeth Caerdydd yn tyfu, mewn niferoedd absoliwt, yn fwy na gweddill Cymru gyda'i gilydd.

Mae gan Gaerdydd boblogaeth o dros 369,202 – gyda 32,459 ohonynt rhwng 10 a 17 oed (8.8 y cant o'r cyfanswm). Hwn hefyd yw'r awdurdod lleol mwyaf amrywiol o ran ethnigrwydd yng Nghymru o bell ffordd: daw oddeutu un rhan o bump o'i boblogaeth o leiafrifoedd ethnig, a siaredir dros 100 o ieithoedd yn y ddinas. Mae traean o blant ysgol yn dod o leiafrifoedd ethnig. Y gyfradd diweithdra bresennol (6.1 y cant) yw'r ail uchaf yng Nghymru ac mae'n uwch na chyfraddau Cymru a Phrydain. Mae'r dadansoddiad a wnaed gan y GCI yn dangos bod pobl ddu a grwpiau ethnig eraill yn cael eu gorgynrychioli ym mhoblogaeth droseddu Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd. Ar ben hynny, o'i gymharu â Thimau Troseddau Ieuenctid eraill yn Ne Cymru sydd â gormod o blant o leiafrifoedd ethnig yn y boblogaeth droseddu, roedd y gwahaniaeth mwyaf yng Nghaerdydd.

Mae Caerdydd yn un o bum dinas yn y DU sy'n datblygu, mewn partneriaeth ag UNICEF UK, fel 'dinas sy'n ystyriol o blant'. Mae hyn yn golygu bod dyhead i roi hawliau plant wrth wraidd ei pholisïau a'i strategaethau, ac i gynnwys plant yn y broses o wneud penderfyniadau ac ymrwymo i fynd i'r afael â rhwystrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau.

Lleolir Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd o fewn cyfarwyddiaeth gwasanaethau plant yr awdurdod lleol. Mae canfyddiadau'r arolygiad blaenorol yn 2020 wedi arwain at waith sylweddol sy'n cael ei wneud ar draws y bartneriaeth ar lefelau strategol a gweithredol. Mae trefniadau bwrdd rheoli a phersonél GCI wedi

³ Mae *Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998* yn nodi'r trefniadau ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid lleol a gweithio mewn partneriaeth.

cael eu hailgyfansoddi ac mae'r gwasanaeth wedi cael ei ailstrwythuro mewn ymateb i'r materion a amlygwyd. Mae hyn wedi bod yn her sylweddol wrth weithredu o fewn cyfyngiadau Covid-19, ac mae cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol wedi bod yn hanfodol er mwyn sicrhau cynnydd.

Mae asesiad o anghenion GCI Caerdydd (Medi 2021) yn dangos bod nifer o ffactorau sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd plentyn yng Nghaerdydd yn ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r rhain yn cynnwys: bod yn wryw (mae 84 y cant o'r holl achosion yn ddynion); bod o ethnigrwydd heb fod yn wyn (mae'r rheini sydd ag ethnigrwydd heb fod yn wyn yn fwy na chwe gwaith yn fwy tebygol o gael rhybudd neu ddedfryd); byw yn y 'bwa deheuol' yng Nghaerdydd (mae'r rhain yn ardaloedd o amddifadedd uwch, yn seiliedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru); bod yn ymwneud â gwasanaethau plant (mae Plant sy'n Derbyn Gofal chwe gwaith yn fwy tebygol o ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid); cael dedfryd flaenorol neu euogfarn (mae tua 27 y cant o ad-droseddwy'r yn gyfrifo am dros hanner yr achosion o arestio); problemau yn y cartref (mae bron i hanner y plant yn y garfan hon ag aelodau teulu sydd â hanes o drais). Ar ben hynny, roedd y gyfradd 'NEET' (Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) ar gyfer plant yng Ngwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd yn 2021 yn 29 y cant, o'i gymharu â 2.8 y cant ym mhoblogaeth gyffredinol plant.

Yn 2020, comisiynodd bwrdd rheoli GCI Caerdydd ddadansoddiad o anghenion iechyd a lles (HWBNA) i ganfod y ffordd orau o gefnogi plant sydd mewn cysylltiad â'r GCI, yn ogystal â'u teuluoedd. Canfu hyn fod gan lawer o blant sy'n dod i gysylltiad â Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd anghenion iechyd a lles cymhleth sy'n cyd-ddigwydd ac sy'n cael eu gwneud yn fwy agored i niwed gan anfanteision cymdeithasol. O fewn y HWBNA hwn, ar sail asesiadau AssetPlus wedi'u cwblhau, roedd nifer yr achosion o broblemau camddefnyddio sylweddau yng ngharfan y GCI yn 49 y cant, roedd yr angen iechyd meddwl wedi'i ddiagnosio yn 22 y cant, a 38 y cant o'r achosion yn nodi risg neu bryder mewn perthynas ag iechyd meddwl neu les emosiynol y plentyn. Roedd canfyddiadau'r HWBNA hefyd yn awgrymu bod angen sylweddol am ddarpariaeth lleferydd ac iaith ar gyfer plant sy'n dod i gysylltiad â Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd.

Ers yr arolygiad blaenorol ar y cyd yn 2020, bu gostyngiadau ar draws tri dangosydd perfformiad allweddol y BCI, sef newydd-ddyfodiaid tro cyntaf, aildroseddu a charcharu. Mae cyfraddau newydd-ddyfodiaid tro cyntaf ac aildroseddu ar gyfer plant yng Nghaerdydd bellach yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr, ar ôl bod yn uwch na hyn yn 2020.

Ffeithiau am y Cyd-destun

Gwybodaeth am y boblogaeth⁴

80	Cyfradd y rhai sy'n ymuno am y tro cyntaf am bob 100,000 yng Nghaerdydd ⁵
167	Cyfradd y rhai sy'n ymuno am y tro cyntaf am bob 100,000 yng Nghymru a Lloegr
33.3%	Cyfradd aildroseddu yng Nghaerdydd ⁶
34.2%	Cyfradd aildroseddu yng Nghymru a Lloegr
369202	Cyfanswm poblogaeth Caerdydd
32459	Cyfanswm y boblogaeth ifanc (10–17 oed) yng Nghaerdydd

Gwybodaeth am lwyth achosion⁷

Oedran	10-14 oed	15-17 oed
GCI Caerdydd	26%	74%
Cyfartaledd cenedlaethol	18%	82%

Hil/ethnigrwydd ⁸	Gwyn	Pobl Dduon a lleiafrifoedd ethnig	Anhysbys
GCI Caerdydd	67%	27%	6%
Y boblogaeth ifanc (10–17 oed) yng Nghaerdydd ⁹	81%	19%	0%

Rhywedd	Gwryw	Benyw
GCI Caerdydd	95%	4%
Cyfartaledd cenedlaethol	86%	13%

⁴ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (Mehefin 2021). *Amcangyfrifon o boblogaeth y DU, canol 2020*.

⁵ Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid. (2022). *Y rhai sy'n ymuno am y tro cyntaf, Ionawr - Rhagfyr 2020*.

⁶ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2022). *Ystadegau aildroseddu, Ebrill 2019 i Fawrth 2020*.

⁷ Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid. (2022). *Ystadegau blynyddol cyfiawnder ieuencid: 2020 to 2021*.

⁸ Data a ddarparwyd gan y GCI.

⁹ Cyfrifiad 2011. (10-17 oed, pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig).

Data llwyth achosion ychwanegol¹⁰

63	Cyfanswm y llwyth achosion presennol: dedfrydau cymunedol
7	Cyfanswm y llwyth achosion presennol yn y ddalfa
5	Cyfanswm y llwyth achosion presennol ar drwydded
229	Cyfanswm baich achosion cyfredol: rhybuddiad i ieuentid; rhybuddiad amodol i ieuentid, datrysiad cymunedol neu ddatrysiad arall y tu allan i'r llys
23%	Cyfran y llwyth achosion cyfredol sy'n destun achos llys
77%	Cyfran y llwyth achosion presennol sy'n cael ei ddatrys y tu allan i'r llys
52%	Canran y baich achosion cyfredol gyda chynllun amddiffyn plant, cynllun plentyn mewn angen neu gynllun 'Plant sy'n Derbyn Gofal'
67%	Canran y llwyth achosion presennol 16 oed ac iau sydd yn yr ysgol yn llawn amser
24%	Canran y plant 16 oed ac iau mewn uned cyfeirio disgyblion, addysg amgen neu'n mynychu'r ysgol yn rhan-amser
31%	Canran y llwyth achosion presennol 17 oed neu'n hŷn nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Ar gyfer plant sy'n destun datrysiadau yn y llys (gan gynnwys achosion ailsefydlu):

Math o drosedd ¹¹	%
Trais yn erbyn y person	75%
Trosedd rhyw (cyswllt)	6%
Lladrata	6%
Llosgi bwriadol	6%
Troseddau moduro diannod	6%

¹⁰ Data a ddarparwyd gan y GCI, sy'n adlewyrchu'r llwyth achosion adeg cyhoeddi'r arolygiad.

¹¹ Data o'r achosion a gafodd eu hasesu yn ystod yr arolygiad hwn.

1. Darpariaeth sefydliadol

Mae penodi cadeirydd y bwrdd annibynnol ym mis Ebrill 2020 wedi bod yn hollbwysig o ran galluogi'r bartneriaeth i bennu agenda gadarnhaol ar gyfer newid a gwella. O ganlyniad, mae mwy o eglurder ynghylch gweledigaeth a phwrpas y bartneriaeth. Mae'r trefniadau llywodraethu wedi newid, er mwyn sicrhau mai'r bwrdd rheoli yw'r arena lle canolbwyntir yn benodol ar blant y GCI. Mae gan aelodau'r Bwrdd statws priodol ac mae ganddynt y lefel briodol o awdurdod i wneud penderfyniadau strategol effeithiol ac i ymrwymo adnoddau.

Mae morâl y staff wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf. Mae staff o'r farn bod llwythi gwaith yn hawdd eu rheoli a bod hyfforddiant da ar gael.

Mae rheolwr gweithredol y GCI wedi dangos gwytnwch a dycnwch i roi newidiadau ar waith ac i wneud penderfyniadau anodd i symud y gwasanaeth yn ei flaen, ond, o ystyried maint y gwaith gwella sydd ei angen, mae angen i uwch arweinwyr sicrhau ei bod yn cadw eu cefnogaeth barhaus ac amlwg. Mae tîm rheoli'r GCI yn gymharol newydd, ond mae'r rhychwantau presennol o gyfrifoldebau rheoli a gwella gwasanaeth yn rhy fawr. Nid yw'r broses werthuso'n cael ei defnyddio'n effeithiol nac yn gyson, er bod amllder yr oruchwyliaeth wedi gwella yn y cyfnod cymharol fyr ers penodi'r tîm rheoli parhaol newydd ym mis Chwefror 2022.

Mae gan y GCI strategaeth datblygu'r gweithlu, ond mae hyn yn gofyn am adolygiad ffurfiol a chwblhau cynllun datblygu'r gweithlu wedi'i ddiweddarau. Yr her i'r tîm rheoli newydd yw sicrhau bod ansawdd yr oruchwyliaeth, y myfyrio, y hyfforddi a'r gefnogaeth yn gwella'n sylweddol, a dylai bwrdd y GCI ei gefnogi yn y gwaith hwn.

Mae gwell dealltwriaeth o broffil carfan y GCI, o'i gymharu ag arolygiad blaenorol 2020. Mae gan y bartneriaeth fynediad at nifer, ystod ac ansawdd digonol o wasanaethau, er bod angen gwella'r ddarpariaeth iechyd a'r llwybrau ymhellach. Serch hynny, mae'r trefniadau gyda llawer o bartneriaid statudol a darparwyr eraill wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf. Nid yw pob un o'r polisïau a'r canllawiau allweddol o ansawdd digonol i alluogi staff i gyflawni eu gwaith. Unwaith eto, er bod pethau wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf, mae tystiolaeth gymysg o systemau sicrhau ansawdd a pherfformiad yn arwain at welliant, ac o ddysgu o brosesau archwilio, arolygu ac adolygu.

Mae'r GCI wedi bod drwy gyfnod o ailstrwythuro, mewn ymateb i ganfyddiadau ein harolygiad blaenorol yn 2020. Mae'r ailstrwythuro hwn, ochr yn ochr â'r heriau a ddaeth yn sgil Covid-19 a'r cyfyngiadau symud, yn golygu bod y GCI wedi wynebu cyfnod o ansefydlogrwydd a her sylweddol. Roedd effaith hyn yn amlwg mewn rhai o'r achosion a aseswyd yn ystod cyfnod ein harolygiad. Fodd bynnag, roedd uwch arweinwyr yn agored ac yn gwbl ymroddedig i'r her i barhau â'u taith i wella, ac roeddent yn ymwybodol o'r prif bryderon a risgiau i'r gwasanaeth.

Cryfderau

- Mae gan y GCI weledigaeth a strategaeth glir, yn seiliedig ar ddadansoddiad strategol a gweithredol o anghenion plant y GCI a chynllun datblygu parhaus.
- Mae cadeirydd bwrdd annibynnol y GCI yn uchel ei barch, yn weladwy ac wedi llywio bwrdd rheoli'r GCI.

- Mae ymrwymiad ac adnoddau gan Brif Swyddog Gweithredol ac arweinwyr gwleidyddol Cyngor Caerdydd wedi bod yn amlwg, ynghyd â chefnogaeth i reoli a datrys rhai problemau adnoddau dynol heriol cyn gweithredu strwythur newydd y GCI.
- Mae'r bartneriaeth wedi strwythuro ei threfniadau llywodraethu a llinellau atebolrwydd. Mae nifer dda yn bresennol yn y bwrdd, ac mae aelodau'r bwrdd yn ymroddedig ac yn ddigon uchel eu statws, ac mae cysylltiadau â byrddau strategol eraill yn amlwg.
- Mae rheolwr gweithredol y GCI wedi goruchwyllo ac ysgogi newid mewn diwylliant ac wedi dangos gwytnwch a dyncwch i symud y gwasanaeth yn ei flaen.
- Mae gan y GCI amrywiaeth o staff partneriaeth ac ar secondiad – gan gynnwys heddlu, swyddog prawf, gweithiwr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (ETE), gweithiwr iechyd (therapydd celf), gweithiwr ymddygiad rhywiol niweidiol a gweithiwr camddefnyddio sylweddau.
- Adroddir bod llwythi gwaith ymarferwyr yn hawdd eu rheoli ac mae digon o hyfforddiant ar gael i staff.
- Mae systemau technoleg gwybodaeth yn caniatáu llunio data perfformiad, ac mae gan y GCI swyddog gwybodaeth data penodol i gasglu a pharatoi data ac adroddiadau ar gyfer bwrdd a thîm rheoli'r GCI.

Meysydd i'w gwella

- Mae angen i is-bwyllgor y bwrdd adennill momentwm, gwybodaeth ac ymrwymiad – gwelsom dystiolaeth anghyson o gydgyssylltu rhwng arweinyddiaeth a gweithgarwch strategol a gweithredol.
- Mae trosiant tîm rheoli'r GCI wedi effeithio ar ansawdd a chraffu ar arferion rheoli achosion. Mae cyfrifoldebau rheolwyr canol presennol o ran rheoli a gwella gwasanaeth yn rhy fawr.
- Mae diffyg eglurder strategol a gweithredol ynghylch yr ystod lawn o ddarpariaeth iechyd sydd ar gael i'r GCI, ac mae llwybrau ar gyfer plant y GCI yn anodd eu defnyddio, yn cael eu gohirio a/neu'n aneglur.
- Mae rhai aelodau o'r bwrdd, fel staff prawf, iechyd a thai, yn newydd ac felly mae angen i'r bwrdd esblygu ac aeddfedu ymhellach er mwyn sicrhau eiriolaeth gyson ar gyfer gwaith y GCI.
- Nid yw llawer o'r staff wedi cael gwerthusiad ac mae'r prosesau goruchwyllo ond wedi bod yn rheolaidd yn ystod y ddau i dri mis diwethaf.
- Mae angen diweddarau strategaeth datblygu'r gweithlu ac mae cynllun archwilio annigonol ar waith ac yn cael ei gyflwyno.
- Nid oes gan rai aelodau staff hyder yn eu hymarfer o ran risg o niwed a/neu ddiogelwch a lles, a bu diffyg dadansoddiad o effaith hyfforddiant blaenorol.
- Er bod llawer o bolisiau wedi cael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y bwrdd a'i is-bwyllgor, nid yw'r craffu angenrheidiol wedi bod ar rai ohonynt ac maent yn cynnwys diffygion ac anghywirdebau sylweddol.

- Mae diffygion yn y dadansoddiad o ddata allweddol i gefnogi dealltwriaeth o ganlyniadau ac i lywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae sefydliadau sy'n cael eu harwain yn dda ac sy'n cael eu rheoli'n dda yn fwy tebygol o gyflawni eu nodau. Rydym yn arolygu yn erbyn pedair safon.

1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth



Mae dulliau llywodraethu ac arweinyddiaeth y timau troseddau ieuencid yn cefnogi ac yn hyrwyddo darparu gwasanaeth personol, ymatebol ac o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn.

Angen gwella

Data allweddol

Cyfanswm y gwariant yn y flwyddyn ariannol flaenorol	£2,051,728
Cyfanswm y gyllideb ragamcanol ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol	£2,256,321

Wrth wneud penderfyniad am lywodraethu ac arweinyddiaeth, rydym yn ystyried yr atebion i'r tri chwestiwn canlynol:

A oes gweledigaeth a strategaeth leol effeithiol ar gyfer darparu gwasanaeth personol, ymatebol ac o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn?

Mae penodi cadeirydd y bwrdd annibynnol ym mis Ebrill 2020 wedi bod yn hollbwysig o ran galluogi'r bartneriaeth i bennu agenda gadarnhaol ar gyfer newid a gwella. Mae cadeirydd y bwrdd yn brofiadol iawn ac yn uchel ei barch ymysg uwch arweinwyr a staff ar bob graddfa ar draws y bartneriaeth. Mae hyn wedi cael effaith aruthrol ar y bwrdd ac wedi sicrhau bod gan y GCI fwy o amlygrwydd, ffocws ar arweinyddiaeth a'r adnoddau i wneud ei waith. Roeddem yn falch o weld bod y trefniadau llywodraethu wedi newid, er mwyn sicrhau mai'r bwrdd rheoli yw'r maes lle ceir ffocws penodol ar blant y GCI.

Mae partneriaeth Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Caerdydd wedi datblygu cynllun strategol dwy flynedd, o'r enw 'Ein Dyfodol Ni i Gyd', gydag ystod eang o randdeiliaid yn gysylltiedig, megis aelodau'r bwrdd, staff a phlant. Mae'r weledigaeth a'r strategaeth glir hon yn seiliedig ar gynllun datblygu cynhwysfawr. Mae'r strategaeth yn ystyried amrywiaeth, ond mae'r gwaith achos a archwiliwyd yn dangos bod angen mwy o ffocws.

Mae'r bartneriaeth wedi pennu camau y gallant eu defnyddio i olrhain gwelliannau dros amser. Mae llawer o elfennau strategol a gweithredol eisoes wedi'u cyflawni, er bod y bwrdd yn realistig ynghylch cynnydd y GCI ac mae meysydd eraill i'w gwella o hyd.


A yw'r dadansoddi, y dystiolaeth a'r dysgu'n cael eu defnyddio'n effeithiol i sbarduno gwelliant?

Roeddem yn falch o weld dystiolaeth o gynnydd yn erbyn y rhan fwyaf o'n 14 o argymhellion arolygu. Roedd rhai wedi cael eu cyflawni'n llawn ac roedd eraill yn cael

eu datblygu drwy'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y cynllun datblygu a gweithgarwch y bwrdd, ac roeddent yn cael eu cynnig drwy strategaeth fraslun 2022-2024.

Mae data'n dangos bod Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd da o'i gymharu â'r dangosyddion perfformiad allweddol cenedlaethol ar gyfer newydd-ddyfodiaid, aildroeddu a charcharu. Roedd y cyfan wedi gostwng ac yn is na chyfartaledd Cymru a Lloegr. Mae'r ffigurau hyn yn welliant sylweddol ar y rhai a welwyd yn ein harolwg blaenorol, ond ychydig iawn o ddadansoddi neu ddealltwriaeth a welsom o'r hyn sydd wedi ysgogi'r gwelliant hwn a pham.

Mae datblygu cerdyn sgorio perfformiad, a gaiff ei fwydo wedyn i dîm rheoli corfforaethol y gwasanaethau plant, wedi arwain at rywfaint o graffu ychwanegol ac wedi gwella'r cydweithio agosach rhwng y GCI a'r gwasanaethau plant. Fodd bynnag, gan mai arf rheoli prosesau yw hwn, nid oedd hyn eto wedi arwain at welliannau digonol mewn gwaith achos craidd yn yr achosion o ddatrysiadau yn y llys a archwiliwyd. Mae angen i broses a chynllun archwilio sicrhau ansawdd mewnol gael eu hailsefydlu a'u gyrru gan dîm rheoli newydd y GCI. O ystyried yr ansefydlogrwydd a'r trosiant yn y tîm rheoli canol dros y 12 mis diwethaf, mae'r ffocws bwriedig ar archwilio wedi'i golli.

Canfu arolygydd Estyn nad oes gwerthusiad systematig ynghylch a yw sgiliau plant wedi gwella yn ystod eu cyswllt â'r GCI. Mae gweithwyr y GCI yn rhannu gwybodaeth am anghenion addysg plant yn dda, ond nid yw rheolwyr achos eto wedi cyrraedd y cam lle gallant ddefnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gynllunio llwybrau dilyniant ar gyfer plant. Roedd y staff yn deall yr angen i wella sgiliau personol plant o ran gwytnwch, hunanhyder a chyfathrebu. Fodd bynnag, nid yw'r GCI ar y pwynt lle gall fesur effaith ymyriadau a chyrtsiau gwytnwch ar blant, ac i ba raddau y mae'r cyrsiau'n gwella eu sgiliau sylfaenol ac yn eu paratoi i gynnal a llwyddo mewn gweithgareddau addysg mwy ffurfiol.

Roedd y GCI wedi dadansoddi baich achosion ac wedi nodi'r angen am weithiwr lleferydd, iaith a chyfathrebu penodol i gefnogi staff i ddelio ag anghenion plant ac i'w helpu i baratoi dogfennau sy'n ddealladwy a hygyrch i blant. Cawsom wybod gan reolwr gweithredol y GCI y bydd rôl SALT yn cynnwys asesiad sgrinio o'r holl blant sy'n agored i'r GCI ac yna'n rhoi cyngor i blant, teuluoedd a staff ar gyfathrebu effeithiol.

Roeddem yn falch o weld bod adolygiad o safonau cenedlaethol wedi cael ei gynnal ar lefel bwrdd, ochr yn ochr â diwrnod datblygu bwrdd i drafod a hunanasesu yn erbyn canllawiau llywodraethu ac arweinyddiaeth y BCI, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021. Roeddem hefyd yn falch o weld bod adolygiadau dysgu perthnasol neu adolygiadau achos difrifol bellach yn cael eu trafod ar lefel bwrdd a'u dosbarthu i staff drwy sesiynau briffio a chyfarfodydd tîm. Rhoddwyd enghraifft o weithgarwch diweddar i archwilio ac adolygu tri o achosion proffil uchel o fewn fframwaith archwiliad trais ieuenctid difrifol.

Roedd y GCI wedi gwneud rhywfaint o waith ar y cyd â Thîm Troseddau Ieuenctid Dudley, a oedd wedi cynnal archwiliad cymheiriad ym mis Chwefror 2022. Nid oedd y GCI wedi datblygu ymateb llawn i'r canfyddiadau eto, gan fod angen rhagor o waith samplu ac archwilio ar yr adeg y cafodd wybod am yr ailarolygiad presennol.

Amrywiaeth

Drwy gydol ein safonau, rydym yn disgwyl dull gweithredu personol ac ymatebol ar gyfer pob plentyn, sy'n cynnwys ystyried eu hamrywiaeth a'u nodweddion gwarchoddedig. Gall y ffactorau hynny ddylanwadu ar ein barn mewn safonau penodol. Yma, rydym yn cyflwyno crynodeb cyffredinol o'r agwedd tuag at amrywiaeth a welsom yn y tîm troseddau ieuentid hwn.

Mae bwrdd y GCI wedi defnyddio pecyn cymorth anghymesuredd y BCI, ac mae dadansoddiad wedi'i wneud. Roedd canlyniadau'r dadansoddiad hwn yn dangos:

- bod pobl ddu a grwpiau ethnig eraill yn cael eu gorgynrychioli ym mhoblogaeth droseddu Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuentid Caerdydd.
- mae grwpiau ethnig 'eraill' yn cynrychioli 13 y cant o'r boblogaeth droseddu, ond dim ond 2.5 y cant o'r boblogaeth leol rhwng 10 ac 17 oed
- mae grwpiau ethnig du yn ffurfio naw y cant o'r boblogaeth droseddu, ond dim ond 3.5 y cant o'r boblogaeth leol rhwng 10 ac 17 oed
- mae plant o gefndir 'arall' yn 6.2 gwaith, a phlant du dair gwaith, yn fwy tebygol o gael eu rhybuddio neu eu dedfrydu na phlant gwyn
- mae grwpiau ethnig gwyn yn cael eu tangynrychioli yn y boblogaeth droseddu, sydd 80 y cant o'r boblogaeth leol rhwng 10 a 17 oed ond dim ond 67 y cant o'r boblogaeth droseddu
- roedd data ar goll ar ethnigrwydd y plentyn mewn 6.3 y cant o achosion yng nghofnodion rheoli achos y GCI.

Roedd y dadansoddiad hefyd yn tynnu sylw at y ffaith, o'r plant a oedd wedi cael rhybudd o'r blaen, fod plant o gefndir du, Asiaidd a threftadaeth gymysg yn fwy tebygol nag unigolion gwyn o gael dedfryd wedi hynny. Ar ben hynny, o'i gymharu â Thimau Troseddau Ieuentid eraill yn Ne Cymru gyda gormod o gynrychiolaeth o blant du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y boblogaeth droseddu, roedd y gwahaniaeth mwyaf yng Nghaerdydd.

Mae asesiad o anghenion Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuentid Caerdydd (Medi 2021) yn dangos bod Plant sy'n Derbyn Gofal chwe gwaith yn fwy tebygol o ddod i gyswllt â'r system cyfiawnder ieuentid. Mae merched yn cael eu tangynrychioli yng Ngwasanaeth Cyfiawnder Ieuentid Caerdydd, gyda phedwar y cant yn cael eu rhybuddio neu eu dedfrydu, o'i gymharu â 13 y cant ledled Cymru a Lloegr.

Nid yw gweithlu'r GCI yn adlewyrchu amrywiaeth ethnig y boblogaeth na charfan y GCI. Mae data sefydliadol yn dangos bod 15 y cant o'r staff yn ddu, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, o'i gymharu â 23 y cant o lwyth achosion y GCI. Fodd bynnag, deliwyd â chymesuredd yn well o safbwynt siaradwyr Cymraeg, gyda gwaith yn cael ei wneud i wella'r fframwaith a'r dull gweithredu ar gyfer plant Cymraeg eu hiaith. Gwelsom dystiolaeth o waith a wnaed ar draws yr is-bwyllgor bwrdd, rheolwyr y GCI a staff ar raddfeydd eraill, i ddatblygu map proses, rhestr wirio a chynllun gwaith i wella'r hyn a gynigir gan y GCI yn y maes hwn. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod staff gweinyddol, rheoli achosion ac arwain sy'n siarad Cymraeg yn y GCI yn cael eu paru â phlant sy'n siarad Cymraeg. Fel gydag elfennau eraill o waith gwella perfformiad a nodwyd drwy gydol yr arolygiad hwn, yr her yw sicrhau bod hyn yn parhau i gael ei ddatblygu a'i yrru ymlaen gan y tîm arwain.

Mae rhai polisiâu allweddol (fel y polisi datrysiadau y tu allan i'r llys) yn methu â chanolbwyntio'n benodol ar anghymesuredd, a gwelsom dystiolaeth gyfyngedig yn unig o wasanaethau penodol wedi'u teilwra neu eu gwerthuso mewn perthynas ag amrywiaeth.

Mae data achosion archwilio yn dangos anghysondeb mewn ymarfer o ran anghenion amrywiaeth plant mewn datrysiadau yn y llys a datrysiadau y tu allan i'r llys. Roeddem o'r farn nad yw amrywiaeth yn cael sylw digonol ar draws asesu, cynllunio ac adolygu. Mae angen mwy o bwyslais a dealltwriaeth o amrywiaeth hefyd wrth ddarparu gwasanaethau ac ymyriadau. Yn ystod ein cyfarfodydd gwaith maes gydag uwch arweinwyr a rhanddeiliaid, roeddent yn cydnabod ymwybyddiaeth o'r angen am hyfforddiant amrywiaeth i staff, gan gynnwys hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol.

O ganlyniad i'w dadansoddiad strategol, mae uwch arweinwyr yn nodi anghymesuredd ac amrywiaeth fel blaenoriaeth strategol allweddol ar gyfer strategaeth newydd y GCI 2022-2024. Datblygodd y GCI y polisi drafft presennol ar anghymesuredd ym mis Chwefror 2022, gyda gweithdai strategol yn cael eu cynnal i gyfrannu at adborth a lledaenu gwybodaeth. Fodd bynnag, mae bwrdd rheoli'r GCI yn cydnabod bod y gweithgaredd hwn yn 'waith sy'n mynd rhagddo'.

2. Datrysiadau yn y llys

Edrychwyd yn fanwl ar 12 dedfryd gymunedol ac un ddedfryd o garchar a reolir gan y GCI. Rydym hefyd wedi cynnal naw cyfweiliad gyda'r rheolwyr achos perthnasol. Roeddem wedi edrych ar ansawdd asesu, cynllunio, gweithredu a chyflawni gwasanaethau, ac adolygu. Archwiliwyd pob un o'r elfennau hyn mewn perthynas â'r gwaith a wnaed i fynd i'r afael ag ymataliad, gan gadw'r plentyn yn ddiogel a chadw pobl eraill yn ddiogel.

Pan fydd plant yn derbyn datrysiad yn y llys, rydym yn disgwyl gweld y gwasanaeth yn cynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniadau llwyddiannus drwy fynd i'r afael â ffactorau ymatal, ymgysylltu'n effeithiol â phlant a'u rhieni neu ofalwyr, ac ymateb i ffactorau amrywiaeth perthnasol. Rydym hefyd yn disgwyl gweld plant yn cael eu cadw'n ddiogel, a sylw yn cael ei roi i'w hanghenion diogelwch a lles. Yn olaf, rydym yn disgwyl i bopeth rhesymol gael ei wneud i reoli'r risg o niwed a achosir gan blant sydd wedi troseddu. Dylai hyn fod drwy asesu a chynllunio o ansawdd uchel, a darparu ymyriadau priodol, goruchwyliaeth reoli effeithiol, adolygu'r gwaith a wneir yn barhaus a gweithio mewn partneriaeth ar draws yr holl asiantaethau statudol a gwirfoddol.

Yn achosion datrysiadau llys Gwasanaeth Erlyn y Goron Caerdydd a arolygwyd, cefnogi ymatal oedd y maes gwaith mwyaf digonol. Roedd ein harchwiliadau achos yn tynnu sylw at ddiffygion yn ansawdd y gwaith a wnaed i fynd i'r afael ag anghenion diogelwch a lles y plentyn, a'r risg o niwed a berir gan rai plant i eraill. Roedd llawer o'r plant hyn yn byw bywydau cymhleth, ac roedd eu troseddau wedi'u cyflawni yng nghyd-destun ymddygiad sy'n peri pryder ehangach a phrofiadau andwyol. Roedd hyn yn golygu, o'i gymharu ag arolwg 2020, ein bod wedi gweld gwell sgoriau archwilio achosion ar gyfer pob un ond un o'r safonau ar gyfer gwaith datrysiadau yn y llysoedd.

Ar gyfer asesu, roedd wyth o bob tri ar ddeg yn bodloni ein gofynion ar gyfer ymatal. Fodd bynnag, dim ond chwech o'r 13 achos oedd yn ddigonol mewn perthynas â diogelwch a lles, a dim ond tri o'r 13 achos oedd yn bodloni ein gofynion i fynd i'r afael â'r risg o niwed i eraill. Arweiniodd hyn at ein barn o 'Annigonol' ar gyfer yr elfen hon o'r gwaith. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd yr asesiadau'n seiliedig ar gryfderau ac yn cynnwys plant a'u rhieni neu ofalwyr. Er bod yr arolygwyr yn cytuno â dosbarthiadau diogelwch a lles, a'r risg o niwed i eraill yn y rhan fwyaf o achosion, roedd diffyg ansawdd i'r asesiadau ac nid oeddent yn defnyddio digon o ffynonellau gwybodaeth gan asiantaethau eraill i lywio dadansoddiad rhesymegol.

Pennwyd bod cynllunio'n 'Annigonol', gan fod llai na 50 y cant o'r achosion yn ddigonol ar draws pob agwedd ar y gwaith hwn. O fewn yr achosion a arolygwyd, yn gyson roedd i'r cynllunio ddiffyg aliniad â chynlluniau asiantaethau eraill ac nid oedd yn nodi'r rheolaethau a'r ymyriadau angenrheidiol mewn llawer o'r achosion hynny lle'r oedd ystyriaethau diogelu neu amddiffyn y cyhoedd. Yn benodol, roedd ansawdd y cynlluniau wrth gefn yn wael.

Gweithredu a chyflawni oedd yr elfen gryfaf o waith datrysiadau yn y llys. Roedd y gwasanaeth wedi gweithio'n dda i weithredu a darparu gwasanaethau i gefnogi ymatal, a diogelwch a lles, gan fodloni ein disgwyliadau mewn mwyafrif o'r 13 achos. Fodd bynnag, roedd darparu gwasanaethau i fynd i'r afael â'r risg o niwed i eraill yn ddigonol mewn wyth achos, a ysgogodd y sgôr gyffredinol ar gyfer y safon hon o 'Angen gwella'. Er gwaethaf y cyfyngiadau a ddaeth yn sgil Covid-19, roedd staff y

GCI yn gweithio'n hyblyg ac yn defnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau'n dda i feithrin perthnasoedd â theuluoedd a defnyddio dull seiliedig ar gryfderau i ddiwallu anghenion plant. Roedd yn amlwg bod darparu gwasanaeth yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer integreiddio cymunedol i blant y GCI, gan gynnwys mynediad at wasanaethau ar ôl goruchwyliaeth.

Roedd adolygu gwaith i fynd i'r afael ag ymatal yn bodloni ein safonau mewn saith o 13 achos; fodd bynnag, dim ond mewn chwech o'r achosion roedd adolygu gwaith i gadw'r plentyn yn ddiogel yn ddigonol. Ar gyfer rheoli diogelwch pobl eraill, roedd yr adolygiad yn ddigonol mewn pedwar o 13 achos yn unig, a arweiniodd at sgôr gyffredinol o 'Annigonol' ar gyfer y safon hon. Roedd adolygiadau o achosion datrysiadau yn y llys naill ai heb eu cwblhau neu'n hwyr. Yn aml, nid oedd y gwaith adolygu'n cael ei oleuo gan fewnbwn gan asiantaethau eraill ac felly nid oedd yn arwain at addasiadau i'r cynllun gwaith gyda'r plentyn, nac ychwaith yn rhoi sylw i risgiau ac anghenion perthnasol yr achos.

Ar draws pob agwedd ar waith achos, gwelsom arferion amrywiol o ran mynd i'r afael ag amrywiaeth plentyn, ochr yn ochr â gwaith anghyson mewn perthynas â gwaith sy'n ymwneud â dioddefwyr a chyfiawnder adferol yn yr achosion a arolygwyd. Roedd y rheolwyr yn goruchwyllo gwaith achos datrysiadau y tu allan i'r llys yn wael iawn, ac roeddent yn cael eu hystyried yn ddigonol mewn un o'r 13 achos yn unig.

Cryfderau

- Roedd gwaith datrysiadau yn y llys yn seiliedig ar gryfderau, gyda lefel gyson o gyfranogiad gan blant a'u rhieni neu ofalwyr ym mhob agwedd ar waith achos.
- Roedd gweithredu a darparu i fynd i'r afael ag ymatal, a diogelwch a lles yn cael ei ystyried yn 'Dda'.
- Roedd tystiolaeth dda o gynllunio ar gyfer integreiddio cymunedol dilynol/gwasanaethau eraill ar ôl i'r GCI gyfranogi.
- Bu ymarferwyr yn gweithio'n galed ac yn hyblyg i gynnal y ddarpariaeth o wasanaethau, er gwaethaf cyfyngiadau Covid-19.

Meysydd i'w gwella

- Roedd diffyg ansawdd a dadansoddi mewn asesiadau, yn benodol mewn perthynas â diogelwch a lles, a'r risg o niwed i eraill.
- Roedd cynllunio i fynd i'r afael ag ymatal, diogelwch a lles, a'r risg o niwed i eraill yn wael, nid oedd wedi'i alinio ag asiantaethau eraill ac nid oedd yn rhoi sylw i drefniadau wrth gefn.
- Ar draws pob agwedd ar waith achos datrysiadau yn y llys, roedd y sylw i rai anghenion amrywiol plant yn amrywio o ran ansawdd.
- Roedd y gwaith ar ddiodesfwyr a chyfiawnder adferol yn anghyson yn yr achosion a arolygwyd.
- Roedd adolygu diogelwch a lles, a'r risg o niwed i eraill yn wan, nid oedd mewnbyn cyson gan yr asiantaethau dan sylw ac nid oeddent yn addasu cynlluniau parhaus lle'r oedd angen.

- Roedd goruchwyliaeth rheolwyr ar waith achos datrysiadau yn y llys yn wael iawn.

Bydd y gwaith gyda phlant sy'n cael eu dedfrydu gan y llysoedd yn fwy effeithiol os caiff ei dargedu, ei gynllunio a'i weithredu'n dda. Yn ein harolygiadau, rydym yn edrych ar sampl o achosion. Ym mhob un o'r achosion hynny, rydym yn arolygu yn erbyn pedair safon.

2.1. Asesu



Mae'r asesiad yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr.

Annigonol

Mae ein sgôr¹⁵ ar gyfer asesu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'ydy'
A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?	62%
A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?	46%
A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?	23%

A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?

Barnwyd bod yr asesiad i gefnogi ymatal yn ddigonol mewn wyth o'r 13 o achosion a arolygwyd. Roedd y dadansoddiad o amrywiaeth yn anghyson ac yn bodloni ein gofynion mewn saith o'r 13 achos. Er gwaethaf hyn, sicrhodd rheolwyr achos y GCI fod plant a'u rhieni neu ofalwyr yn ganolog i'r broses asesu yn y rhan fwyaf o achosion. Mewn 11 o'r 13 achos, rhoddwyd digon o sylw i ddeall lefelau aeddfedrwydd, gallu a chymhelliant y plentyn i newid.

Un cryfder allweddol oedd ystyried amgylchiadau personol y plentyn, gan gynnwys y cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach. Roedd hyn yn amlwg mewn 12 o'r 13 achos a arolygwyd. Fodd bynnag, ystyriwyd anghenion a dymuniadau'r dioddefwr mewn ychydig dros hanner yr achosion perthnasol, gan gyfyngu ar y cyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol.

A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?

Roedd yr asesiadau o ddiogelwch a lles yn anghyson ac, mewn rhai o'r achosion a arolygwyd, roedd yn tanbrisiu ffactorau a materion a oedd yn effeithio ar ddiogelwch a lles y plentyn. Er ein bod o'r farn bod y dosbarthiad cywir o ddiogelwch a lles wedi'i ddefnyddio mewn 11 o'r 13 achos, nid oedd yr asesiadau o ddiogelwch a lles wedi'u dadansoddi'n rhesymegol a nodwyd nad oedd gan rai staff ddigon o hyder i asesu'r maes gwaith hwn. Mewn saith o'r achosion, roedd y staff wedi nodi a dadansoddi'r risgiau i ddiogelwch a lles y plentyn yn ddigonol ac wedi defnyddio asesiadau neu

¹⁵ Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. Edrychwch ar Atodiad 2 i gael eglurhad manylach.

wybodaeth a oedd yn cael ei chadw gan asiantaethau eraill yn briodol. Dadansoddodd y staff y mesurau rheoli neu'r ymyriadau a oedd yn hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn orau mewn ychydig dros hanner yr achosion a arolygwyd.

A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?

Roedd asesu risg plentyn o niwed i eraill yn wael. Mewn dim ond pedwar o'r 13 achos, roedd yr asesiadau'n nodi ac yn dadansoddi unrhyw risg o niwed i eraill a berir gan y plentyn, gan gynnwys nodi pwy oedd mewn perygl, a natur y risg honno. Roedd rheolwyr achos yn defnyddio'r ffynonellau gwybodaeth a oedd ar gael ac yn cynnwys asiantaethau eraill, lle bo hynny'n briodol, mewn llai na hanner yr achosion a arolygwyd. Roeddent yn ystyried mesurau rheoli ac ymyriadau i reoli a lleihau'r risg o niwed i eraill a berir gan y plentyn mewn dim ond pedwar achos. Er bod yr arolygwyr yn cytuno â lefel y dosbarthiad risg o niwed i eraill yn y rhan fwyaf o achosion, roedd diffyg dadansoddiad rhesymegol a chasglu gwybodaeth i lywio penderfyniadau neu ddsbarthu risg. Nid oedd ymddygiad blaenorol a chyfredol yn cael ei ystyried yn systematig, ac roedd diffyg dull ymchwiliol mewn rhai o'r achosion a arolygwyd.

Nododd arolygydd:

“Byddai'r asesiad wedi elwa o ddadansoddiad cliriach o effaith y trosedd, o ran y niwed a achoswyd i'r dioddefwr ac effaith debygol unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol. Ceir gwybodaeth am ddigwyddiadau'r heddlu yn y gorffennol sy'n nodi ymddygiad sy'n gysylltiedig â niwed, gan gynnwys ymosodiad cyffredin, a ddylai fod wedi cael ei ystyried yn y dyfarniad. Ni ystyriwyd risgiau ymosodiadau domestig i aelodau'r teulu, er bod gwybodaeth hanesyddol gan yr heddlu'n dangos tystiolaeth o'r ymddygiad hwn”.

2.2. Cynllunio



Mae'r gwaith cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth, yn holistaidd ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr.

Annigonol

Mae ein sgôr¹⁶ ar gyfer cynllunio yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'ydy'
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?	46%
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?	23%
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	23%

A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio ar gefnogi ymataliad y plentyn?

¹⁶ Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. Edrychwch ar Atodiad 2 i gael eglurhad manylach.

Roedd cynllunio i gefnogi ymataliaeth y plentyn neu'r person ifanc yn ddigonol mewn chwech o'r 13 achos. Roedd lleiafrif o'r cynlluniau'n nodi'r gwasanaethau sydd fwyaf tebygol o gefnogi ymatal, ac mewn llai na hanner yr achosion roedd y GCI yn ystyried amrywiaeth y plentyn. Roedd y cynllunio'n rhoi digon o ystyriaeth i gryfderau a ffactorau amddiffynnol mewn wyth o'r 13 achos, ac yn y rhan fwyaf o'r achosion roedd y cynllunio'n ddigonol ar gyfer ffactorau sy'n ymwneud â'r cyd-destun cymdeithasol a theuluol ehangach. O'r achosion gyda dioddefwr amlwg, roedd y gwaith cynllunio'n ystyried eu barn mewn ychydig llai na'u hanner. Roedd gan y plentyn a'i rieni neu ofalwyr ran ystyrllon yn naw o'r achosion a arolygwyd.

A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?

Rhodddwyd sylw i gynllunio i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn mewn ychydig dros hanner yr achosion a arolygwyd. Nid oedd y cynlluniau'n nodi'r rheolaethau a'r ymyriadau angenrheidiol i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn mewn wyth o'r 13 achos, a roeddent yn cynnwys digon o asiantaethau eraill mewn saith achos. Canfu'r arolygwyr ddiffygion yn ansawdd y cynlluniau wrth gefn ar gyfer diogelwch a lles. Mae hyn yn bwysig, gan y dylid cael cynllun gweithredu clir os bydd risg i'r plentyn naill ai'n cynyddu neu'n gostwng. Mewn mwyafrif helaeth o'r 13 achos, roedd y cynlluniau wrth gefn yn rhy amwys ac nid oeddent yn nodi'n glir pa gamau neu ymatebion oedd i'w cymryd os, a phryd, y newidiodd yr amgylchiadau. Yn gyffredinol, roedd y cynllunio'n canolbwyntio ar gadw'r plentyn yn ddiogel mewn ychydig llai na chwarter yr achosion a arolygwyd.

Dyweddodd un arolygydd:

“Roedd y cynllunio ar gyfer diogelwch a lles yn wan. Roedd y dogfennau cynllunio ei hunain yn rhy amwys o lawer, yn fyr ac yn amhenodol, heb fawr o dystiolaeth o gydgyssylltu digonol â'r cynllun amddiffyn plant a chamau gweithredu/cynlluniau eraill gan y CMASM [cyfarfod diogelu aml-asiantaeth plant] ac arena'r panel rheoli risg. Roedd y cynllunio wrth gefn yn gyfyngedig, yn gyffredinol ac, unwaith eto, nid oedd yn nodi'r ystod o gamau i'w cymryd a chan bwy”.

A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?

Pennwyd bod ansawdd y cynllunio i gadw pobl eraill yn ddiogel yn 'Annigonol'. Roedd digon o gynllunio i hyrwyddo diogelwch pobl eraill mewn chwech o'r 13 achos a arolygwyd, gydag ychydig dros hanner yr achosion yn cynnwys asiantaethau eraill, lle bo hynny'n briodol. Dim ond mewn pedwar o'r achosion a arolygwyd y gwelwyd cynllunio i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau a phryderon penodol sy'n gysylltiedig â dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl.

Mae'r cynllunio'n nodi'r rheolaethau a'r ymyriadau angenrheidiol i hyrwyddo diogelwch pobl eraill mewn llai na thraean o'r achosion. Fodd bynnag, gall amgylchiadau ym mywyd plentyn newid yn gyflym. Mae angen i reolwyr achos ystyried y potensial ar gyfer newid ym mhob achos, er mwyn sicrhau, os bydd pryderon yn cynyddu, eu bod yn barod ac yn fwy tebygol o ymateb yn effeithiol. Canfu'r arolygwyr nad oedd y cynllunio wrth gefn yn glir ynghylch camau penodol i gadw eraill yn ddiogel, gan arwain at ddim ond dau o'r 13 achos yn cael eu barnu'n ddigonol yn yr agwedd hon ar y gwaith. Yn gyffredinol, roedd cynllunio ar gyfer rheoli risg o niwed i eraill yn bodloni ein gofynion mewn dim ond tri o'r achosion a arolygwyd.

2.3. Gweithredu a chyflawni



Mae gwasanaethau cydlynol, personol ac o ansawdd uchel a gyda ffocws da yn cael eu darparu, gan ymgysylltu â'r plentyn a'i helpu.

Angen gwella

Mae ein sgôr¹⁷ ar gyfer gweithredu a chyflawni yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'ydy'
A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol?	77%
A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?	69%
A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?	62%

A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol?

Roedd gweithredu a darparu i gefnogi ymatal yn gryf. Roedd yn amlwg mewn 11 o'r 13 achos bod y rheolwyr achos wedi mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau yn eu gwaith. Roedd gan y GCI fynediad at amrywiaeth o staff arbenigol ac adnoddau eraill i ddarparu ymyriadau addas ac arloesol i blant, a fyddai'n cael eu gwella ymhellach fyth pan fydd llwybrau iechyd yn cael eu datblygu'n well. Canfu'r arolygwyr mai'r GCI, yn y rhan fwyaf o achosion, oedd yn darparu'r gwasanaethau a oedd fwyaf tebygol o gefnogi ymatal. Roedd yn amlwg ym mhob achos ond un fod y staff yn canolbwyntio ar ddatblygu a chynnal perthynas waith effeithiol gyda'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr.

Mewn ychydig o dan hanner yr achosion a arolygwyd, nid oedd y gwasanaeth a ddarperir yn adlewyrchu amrywiaeth y plentyn yn ddigonol. Fodd bynnag, ystyriwyd cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn mewn 10 o'r 13 achos. Roedd yr arolygwyr yn falch o weld bod gweithredu a darparu gwasanaeth yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer integreiddio cymunedol, gan gynnwys mynediad at wasanaethau ar ôl goruchwyliaeth, mewn 12 o'r achosion a arolygwyd.

A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?

Roedd rheolwyr achos yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddiogelwch a lles, a chafodd hyn ei hyrwyddo mewn naw o'r 13 achos. Gweithiodd y GCI yn gyson gydag amrywiaeth o asiantaethau a sefydliadau i ddarparu pecynnau cymorth wedi'u cydlynyn dda. Roedd hyn yn amlwg mewn naw o'r 13 achos perthnasol a arolygwyd. **Canfuom drefniadau clir hefyd i gefnogi Plant sy'n Derbyn Gofal, a'r rheini sy'n**

¹⁷ Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. Edrychwch ar Atodiad 2 i gael eglurhad manylach.

agored i ofal cymdeithasol, sy'n cael eu hecsbloetio'n droseddol neu sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau.

A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?

Mewn wyth o'r 13 achos perthnasol, roedd gweithredu a darparu gwasanaethau'n cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol. Fodd bynnag, roedd y gwaith i hyrwyddo diogelwch dioddefwyr a chynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol yn fwy amrywiol, gydag ychydig llai na hanner yr achosion perthnasol hynny'n cael eu hystyried yn ddigonol. Ochr yn ochr â hyn, barnwyd bod cyfleoedd i gynnwys gwahanol asiantaethau yn y gwaith o reoli'r risg o niwed i eraill yn ddigonol mewn wyth o'r 13 achos.

2.4. Adolygu



Mae adolygu cynnydd yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr.

Annigonol

Mae ein sgôr¹⁸ ar gyfer adolygu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'ydy'
A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?	54%
A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?	46%
A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	31%

A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?

Roedd adolygu cynnydd i gefnogi ymataliad y plentyn yn anghyson, ac yn ddigonol mewn ychydig dros hanner yr achosion. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd ymateb y GCI i amgylchiadau a oedd yn newid yn helpu i gynnal ymgysylltiad plant a sicrhau bod y gwaith a oedd yn cael ei wneud yn effeithiol ac yn ystyrlon. Gwelsom fod plant a'u rhieni neu ofalwyr wedi cymryd rhan ystyrlon yn eu hasesiad mewn naw o'r 13 achos. Fodd bynnag, mewn elfennau eraill, fel ystyried amrywiaeth y plentyn, roedd diffygion, a dim ond pedwar o'r 11 achos perthnasol a ystyriwyd yn ddigonol. Arweiniodd yr adolygiad at yr addasiadau angenrheidiol yn y cynllun gwaith parhaus i gefnogi ymatal mewn dim ond hanner y deuddeg achos perthnasol.

A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?

Ystyriwyd bod ansawdd adolygiadau o ddiogelwch a lles plant yn faes i'w ddatblygu. Roedd rheolwyr achos yn nodi ac yn ymateb i newidiadau mewn diogelwch a lles

¹⁸ Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, ac a nodir mewn print trwm yn y tabl. Edrychwch ar Atodiad 2 i gael eglurhad manylach.

mewn dim ond hanner yr achosion perthnasol. Casglwyd neu ystyriwyd gwybodaeth gan asiantaethau eraill mewn saith o'r 13 achos, ac roedd y broses adolygu wedi arwain at y newidiadau neu'r addasiadau angenrheidiol yn y cynllun cyfredol mewn dim ond pump o'r deuddeg achos perthnasol. Yn gyffredinol, roedd yr adolygiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel mewn ychydig llai na hanner yr achosion a arolygwyd gennym.

A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?

Roedd adolygiadau o'r risg o niwed i eraill yn wan. Yn y rhan fwyaf o achosion perthnasol, nid oedd y rheolwr achos wedi nodi nac wedi ymateb i newidiadau mewn risg, ac nid oedd llai na hanner yr 13 achos wedi ystyried digon o wybodaeth gan asiantaethau eraill. Dim ond mewn traean o'r 12 achos perthnasol hynny yr arweiniodd y broses adolygu at addasiadau angenrheidiol i'r cynllun gwaith parhaus i reoli a lleihau'r risgiau hyn. Yn gyffredinol, roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar gadw pobl eraill yn ddiogel mewn dim ond pedwar o'r tri ar ddeg achos perthnasol.

3. Datrysiadau y tu allan i'r llys

Roeddem wedi edrych ar 25 achos a oedd yn cael eu rheoli gan YOT a oedd wedi cael eu datrys y tu allan i'r llys. Roedd y rhain yn cynnwys tri rhybudd amodol i bobl ifanc, dau rybuddiad i bobl ifanc ac 20 datrysiad cymunedol. Gwnaethom gyfweld y rheolwyr achos mewn 18 achos.

Roeddem wedi edrych ar ansawdd asesu; cynllunio; a gweithredu a chyflawni gwasanaethau. Archwiliwyd pob un o'r elfennau hyn mewn perthynas â'r gwaith a wnaed i fynd i'r afael ag ymataliad, gwaith i gadw'r plentyn yn ddiogel a gwaith i gadw pobl eraill yn ddiogel. Mae angen i ansawdd y gwaith a wneir ar gyfer pob ffactor fod yn uwch na throthwy penodol ar gyfer pob agwedd o oruchwyliaeth er mwyn iddo gael ei ystyried yn foddhaol.

Rydym hefyd wedi edrych ar ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau.

Pan fydd plant yn derbyn datrysiad y tu allan i'r llys, rydym yn disgwyl gweld y gwasanaeth yn cynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniadau llwyddiannus drwy fynd i'r afael â ffactorau ymatal, ymgysylltu'n effeithiol â phlant a'u rhieni neu ofalwyr, ac ymateb i ffactorau amrywiaeth perthnasol. Rydym hefyd yn disgwyl gweld plant yn cael eu cadw'n ddiogel, a sylw yn cael ei roi i'w hanghenion diogelwch a lles. Yn olaf, rydym yn disgwyl i bopeth rhesymol gael ei wneud i reoli'r risg o niwed a achosir gan blant sydd wedi troseddu. Dylai hyn fod drwy asesu a chynllunio o ansawdd uchel, gan ddarparu ymyriadau priodol, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol, a gwneud penderfyniadau da ar y cyd a gweithio mewn partneriaeth ar draws yr holl asiantaethau statudol a gwirfoddol.

Wrth arolygu achosion, mae gennym ffiniau sgorio sy'n pennu'r sgôr gyffredinol a ddefnyddir. Yng Ngwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Caerdydd, roedd dros hanner ond llai na dwy ran o dair o'r achosion a arolygwyd yn bodloni ein holl safonau ar gyfer asesu, gan arwain at sgôr 'Angen gwella' ar gyfer yr elfen hon o'r gwaith. Canfuwyd bod yr asesiadau'n seiliedig ar gryfderau ac yn gymesur, ac roedd mwyafrif helaeth yn cynnwys mewnbwn gan y plentyn a'i rieni neu ofalwyr. Roedd asesu diogelwch a lles plentyn yn ddigonol mewn ychydig dros hanner yr achosion a gellid ei wella ymhellach drwy ddadansoddi'n well a chynnwys gwybodaeth gan asiantaethau eraill yn fwy cyson, lle bo hynny'n berthnasol.

Rhodddwyd sgôr 'Da' ar gyfer cynllunio. Roedd yn nodi'r cyfleoedd ar gyfer integreiddio cymunedol a mynediad at wasanaethau prif ffrwd ar ôl cwblhau'r gwaith datrysiadau y tu allan i'r llys. Roedd cyfraniad y plentyn a'i rieni neu ofalwyr at gynllunio gweithgaredd yn gyson gryf. Fodd bynnag, o ran diogelwch a lles, a'r risg o niwed i eraill, gellid gwella o ran nodi'r trefniadau wrth gefn i reoli'r risgiau a gyflwynir. Er hynny, roedd tystiolaeth foddhaol o gyd-gynllunio yn yr achosion datrysiadau y tu allan i'r llys a arolygwyd, a oedd yn cynnwys asiantaethau eraill lle'r oedd hynny'n briodol.

Rhodddwyd sgôr 'Da' i'r gwaith o weithredu a chyflawni. Nododd rheolwyr achos y ffactorau a oedd fwyaf tebygol o gefnogi ymataliad y plentyn gan ganolbwyntio'n ddigonol ar ddatblygu a chynnal perthynas waith effeithiol gyda phlant a'u rhieni neu ofalwyr. Roedd y broses o gyflawni'r gwaith yn amserol, yn gymesur ac wedi'i drefnu'n dda, gan ddarparu tystiolaeth dda o gynllunio ar gyfer integreiddio cymunedol olynol/gwasanaethau eraill ar ôl cwblhau cyfranogiad y GCI.

Ar draws asesu, cynllunio a darparu, gwelsom arferion anghyson o ran mynd i'r afael ag amrywiaeth plentyn, ochr yn ochr ag ansawdd gwaith amrywiol mewn perthynas â gwaith cyfiawnder adferol a dioddefwyr yn yr achosion a arolygwyd. Roedd goruchwyliaeth rheolwyr ar waith achos datrysiadau y tu allan i'r llys yn wan, ac roeddent yn cael eu hystyried yn ddigonol mewn dim ond wyth o'r pum achos ar hugain. Wedi dweud hynny, roeddem yn falch o weld bod sgoriau archwilio achosion wedi gwella'n sylweddol ar draws pob un ond un o'r safonau ar gyfer gwaith datrysiadau y tu allan i'r llys. Yn benodol, mae'n werth nodi'r gwelliant yn ansawdd gwaith diogelu ac amddiffyn y cyhoedd ar draws elfennau asesu, cynllunio a chyflawni.

Rhoesom sgôr 'Angen gwella' i bolisi a darpariaeth datrysiadau y tu allan i'r llys. Ceir polisi datrysiadau y tu allan i'r llys (wedi'i ategu gan siart llif proses biwro) sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau, darparu a chyflawni datrysiadau y tu allan i'r llys a gwaith atal/dargyfeirio. Fodd bynnag, nid oedd polisi datrysiadau y tu allan i'r llys y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a phrosesau a pholisïau y tu allan i'r llys Heddlu De Cymru wedi'u halinio, a oedd yn ddiffyg gan fod rhai anghysonderau yn y canllawiau a'r prosesau.

Mae gan Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd gynnig 'dau ran' ar gyfer dargyfeirio y tu allan i'r llys, yn dibynnu ar risg, angen ac ymwneud blaenorol â'r gwasanaeth. Ers yr arolygiad diwethaf, mae cyflwyno a gweithredu 'model biwro' ym mis Mawrth 2021 wedi bod yn ddatblygiad arwyddocaol. Mae'r dull gweithredu hwn wedi arwain at ffocws a phroses llawer cliriach o ran cyflawni gwaith y tu allan i'r llys yng Nghaerdydd, yn enwedig ers yr arolygiad diwethaf yn 2020. Fodd bynnag, roedd angen gwneud rhagor o waith er mwyn i'r bartneriaeth sicrhau bod y panel gwneud penderfyniadau'n cynnwys yr holl asiantaethau perthnasol yn gyson, a bod y plentyn yn deall y broses yn llawn ac yn gallu cymryd rhan yn fwy effeithiol ynddi.

Er y bu gostyngiad sylweddol yn nifer y rhai sy'n ymuno am y tro cyntaf, prin oedd dealltwriaeth y bartneriaeth o sut y gallai'r llwyddiant hwn fod yn gysylltiedig â'r gwaith mewn perthynas â datrysiadau y tu allan i'r llys. Yn yr un modd, rhoddwyd ychydig iawn o sylw ac ystyriaeth i faterion amrywiaeth o fewn y polisi datrysiadau y tu allan i'r llys.

Cryfderau

- Ceir polisi datrysiadau y tu allan i'r llys sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau, darparu a chyflawni datrysiadau y tu allan i'r llys a gwaith atal/dargyfeirio.
- Cafodd y gwaith o gynllunio a darparu datrysiadau y tu allan i'r llys ei ystyried yn 'Rhagorol' am ymatal a 'Da' ar draws elfennau diogelwch a lles, a'r risg o niwed i eraill.
- Roedd gwaith datrysiadau y tu allan i'r llys yn seiliedig ar gryfderau ac yn cynnwys plant a rhieni mewn mwyafrif helaeth o achosion.
- Roedd y gwaith a wnaed gyda phlant ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys yn amserol ac yn gymesur, gyda thystiolaeth dda o gynllunio ar gyfer integreiddio cymunedol dilynol/gwasanaethau eraill ar ôl cwblhau gwaith y GCI.
- Roedd cytundebau lefel gwasanaeth rhwng y GCI ac Academi Cyfryngau Caerdydd ar gyfer y prosiect 'Divert'.

- Rheolir plant sy'n destun datrysiadau y tu allan i'r llys ac sy'n cael eu hasesu fel rhai sydd ag anghenion diogelwch a lles uchel neu sy'n peri risg uchel o niwed i eraill drwy drefniadau'r panel rheoli risg.

Meysydd i'w gwella

- Mae angen adolygu polisi datrysiadau y tu allan i'r llys y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac nid yw'n cyd-fynd yn ddigonol â pholisi a phrosesau datrysiadau y tu allan i'r llys Heddlu De Cymru.
- Roedd y cynllunio wrth gefn ar gyfer diogelwch a lles, a'r risg o niwed i eraill, yn wan.
- Roedd asesu, cynllunio a darparu mewn perthynas ag anghenion amrywiaeth rhai plant yn anghyson.
- Roedd gwaith dioddefwyr a chyfiawnder adferol yn amrywio o ran ansawdd.
- Roedd goruchwyliaeth rheolwyr ar waith achos datrysiadau y tu allan i'r llys yn wan.
- Nid oedd dadansoddiad digonol o ddata datrysiadau y tu allan i'r llys i ddeall pam fod cyfraddau newydd-ddyfodiaid tro cyntaf wedi gostwng mor sylweddol, ac felly roedd yna ddealltwriaeth gyfyngedig o'r garfan.
- Mae'r panel gwneud penderfyniadau ar y cyd yn cael ei gadeirio gan yr heddlu, ac er bod gweithwyr proffesiynol eraill wedi cyfrannu at drafodaeth cyn y panel, nid oedd rheolwyr achos yn mynychu'r panel fel mater o drefn gyda'u hasesiad hwy o'r plentyn.

Bydd y gwaith gyda phlant y gwneir penderfyniadau amdanynt y tu allan i'r llys yn fwy effeithiol os caiff ei dargedu, ei gynllunio a'i weithredu'n dda. Yn ein harolygiadau, rydym yn edrych ar sampl o achosion. Ym mhob un o'r achosion hynny, rydym yn arolygu yn erbyn pedair safon.

3.1. Asesu



Mae'r asesiad yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr.

Angen gwella

Mae ein sgôr¹⁹ ar gyfer asesu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'ydy'
A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?	64%

¹⁹ Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. Edrychwch ar Atodiad 2 i gael eglurhad manylach.

A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?	52%
A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?	64%

A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?

Mewn 16 o'r 25 achos a arolygwyd, gwelsom fod asesiadau wedi dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad plant. Mewn mwyafrif helaeth o achosion, cwblhawyd yr asesiad gyda mewnbwn ystyrion gan blant a'u rhieni neu ofalwyr. Roedd y staff hefyd yn canolbwyntio ar ddeall yr ymddygiad troseddol o safbwynt y plentyn, er mwyn dadansoddi ei gymhelliant, ei agwedd a'i ymdeimlad o gyfrifoldeb. Fodd bynnag, ystyriwyd ffactorau amrywiaeth yn ddigonol mewn dim ond 10 o'r 25 achos. Canfuom ystyriaeth amrywiol o gyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol, gyda 10 o'r 19 achos perthnasol yn cael eu hystyried yn ddigonol. Mewn ychydig dros hanner yr achosion perthnasol roedd diffyg sylw mewn asesiadau i unrhyw rwystrau strwythurol sy'n wynebu'r plentyn.

A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?

Er bod yr arolygwyr yn cytuno â'r dosbarthiad risg diogelwch a lles yn y rhan fwyaf o achosion, roedd asesu diogelwch a lles plentyn yn anghyson ac yn cael ei ystyried yn ddigonol mewn ychydig dros hanner. Gwelsom fod rheolwyr achos yn defnyddio ffynonellau gwybodaeth eraill mewn 13 o'r 25 achos.

Dyweddodd un arolygydd:

“Er bod y dosbarthiad diogelwch a lles yn briodol uchel, nid yw'r asesiadau ysgrifenedig yn cynnwys dadansoddiad rhesymegol o'r rhesymeg dros y risg uchel, gyda'r manylion allweddol yn cael eu trafod yn rhy gryno. Er enghraifft, mae gan sylwadau fel 'mae gan y plentyn nifer o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ond nid ydynt yn nodi beth oedd y rhain. Roedd nifer o faterion eraill yn amlwg, gan gynnwys newid lleoliadau, anghenion addysgol arbennig, cyfoedion negyddol, addysg wedi'i darfu. Roedd hyn yn ychwanegol at y rhai a amlygwyd yn gryno, fel ecsbloetio troseddol, statws Plentyn sy'n Derbyn Gofal a chyflwyno NRM [Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol]. Nid yw'r dogfennau asesu ysgrifenedig yn cynnwys digon o fanylion o'r ystod o wybodaeth sydd ar gael gan ofal cymdeithasol, gyda dim ond un neu ddwy linell wedi'u hysgrifennu mewn sawl adran”.

A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?

Mewn 13 o'r 20 achos perthnasol, roedd yr asesiad wedi canfod a dadansoddi'r risg o niwed i eraill, gan gynnwys pwy sydd mewn perygl a natur y risg. Roedd y rheolwr achos wedi defnyddio'r ffynonellau gwybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys asesiadau eraill, i oleuo eu barn eu hunain mewn dwy ran o dair o'r achosion. Barnodd yr arolygwyr fod asesiad y rheolwr achos o lefel y risg o niwed difrifol i eraill yn rhesymol mewn 18 o'r 25 achos.

3.2. Cynllunio



Mae'r gwaith cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr.

Da

Mae ein sgôr²⁰ ar gyfer cynllunio yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'ydy'
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio ar gefnogi ymataliad y plentyn?	80%
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?	68 %
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	72%

A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?

Roedd cynllunio i gefnogi ymatal yn ddigonol yn y rhan fwyaf o achosion. Roedd rheolwyr achos yn mabwysiadu dull cynhwysol, ac mewn 20 o'r 25 achos, datblygwyd eu cynlluniau gyda'r plant a'u rhieni neu ofalwyr. Fodd bynnag, roedd y gwaith cynllunio mewn perthynas ag amrywiaeth yn llai cyson, gan ei fod yn cael ei ystyried yn ddigonol mewn ychydig llai na hanner yr achosion.

Roedd y gwaith a gynlluniwyd yn gymesur mewn mwyafrif helaeth o'r achosion a arolygwyd a gellid ei gyflawni o fewn amserlen y datrysiaid y tu allan i'r llys. Mewn 21 o'r 25 achos, roedd y staff yn cynnwys gweithredu ar yr holl brif feysydd a gwasanaethau i gefnogi ymatal, gyda dilyniant priodol. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd cynllunio ar gyfer lefelau aeddfedrwydd, gallu a chymhelliant y plentyn i newid yn amlwg, yn ogystal â'r cynllunio i atgyfnerthu a datblygu ffactorau amddiffynnol y plentyn.

Roedd y prif ffactorau ymatal a nodwyd yn cynnwys: Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, ffordd o fyw, camddefnyddio sylweddau a gwytnwch. Roedd rheolwyr achos wedi cael cydbwysedd da rhwng ymyriadau i gefnogi ymatal a'r angen i gwblhau gwaith penodol ar ymddygiad troseddol. Fodd bynnag, roedd y cynllunio i roi sylw i anghenion a dymuniadau dioddefwyr yn fwy amrywiol, a barnwyd ei fod yn ddigonol mewn 10 o'r 18 achos perthnasol.

Mewn 23 o'r 25 achos, roedd y gwaith cynllunio'n canolbwyntio ar gefnogi mynediad at wasanaethau cyffredinol i hyrwyddo integreiddio cymunedol, a oedd yn cefnogi cynllunio ymadael effeithiol a chefnogaeth barhaus.

A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?

²⁰ Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. Edrychwch ar Atodiad 2 i gael eglurhad manylach.

Yn y rhan fwyaf o'r achosion perthnasol, roedd digon o gynllunio i gadw plant yn ddiogel. Pan wnaed hyn yn dda, roedd yna waith aml-asiantaeth amlwg. Mewn 13 o'r 19 achos perthnasol, roedd cynlluniau'r GCI yn cyd-fynd â chynlluniau eraill.

Yn gyffredinol, roedd y cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel mewn 17 o'r 25 achos. Fodd bynnag, gall amgylchiadau ym mywyd plentyn newid yn gyflym. Mae angen i reolwyr achos ystyried y potensial ar gyfer newid ym mhob achos, er mwyn sicrhau, os bydd pryderon yn cynyddu, eu bod yn barod ac yn fwy tebygol o ymateb yn effeithiol. Rydym yn cydnabod yr angen am gynllunio cymesur mewn datrysiadau y tu allan i'r llys, lle gallai ymyriadau fod yn fyr, ond byddem wedi disgwyl gweld cynlluniau wrth gefn manylach mewn rhai o'r achosion a arolygwyd gennym. Mae hyn yn bwysig, gan y dylid cael cynllun gweithredu clir os bydd risg i'r plentyn naill ai'n cynyddu neu'n gostwng. Canfuom mai dim ond mewn wyth o'r 20 achos perthnasol y byddai cynlluniau wrth gefn ar gyfer diogelwch a lles yn ddigonol.

A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?

Mewn 12 o'r 17 achos perthnasol, roedd y cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl yn ddiogel, ac roedd rheolwyr achos yn cynnwys asiantaethau eraill yn eu prosesau cynllunio yn y rhan fwyaf o achosion perthnasol. Roedd plant a oedd yn destun datrysiadau y tu allan i'r llys ac a aseswyd eu bod yn peri risg uchel o niwed i eraill yn cael eu rheoli drwy drefniadau RMP y GCI. Fodd bynnag, gwelsom fod y gwaith cynllunio'n mynd i'r afael â phryderon a risgiau penodol sy'n gysylltiedig â dioddefwyr gwirioneddol a phosibl mewn ychydig dros hanner yr achosion perthnasol.

Yn yr un modd â diogelwch a lles, mae cynllunio wrth gefn i reoli amddiffyn y cyhoedd yn bwysig a dylid cael cynllun gweithredu clir os bydd risg y plentyn o achosi niwed i eraill naill ai'n cynyddu neu'n lleihau. Canfuom mai dim ond mewn pump o'r 16 achos perthnasol y byddai cynlluniau wrth gefn ar gyfer risg o niwed i eraill yn ddigonol.

3.3. Gweithredu a chyflawni



Mae gwasanaethau cydlynol, personol ac o ansawdd uchel a gyda ffocws da yn cael eu darparu, gan ymgysylltu â'r plentyn a'i helpu.

Da

Mae ein sgôr²¹ ar gyfer gweithredu a chyflawni yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'ydy'
A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol?	88%
A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?	72 %

²¹ Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. Edrychwch ar Atodiad 2 i gael eglurhad manylach.

A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?

76%

A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?

Roedd gweithredu a darparu i gefnogi ymataliad y plentyn yn foddhaol yn y rhan fwyaf o achosion. Canfu'r arolygwyr lefel uchel o ymgysylltu gan blant, a oedd yn adlewyrchu agwedd ragweithiol y staff. Roedd rheolwyr achos yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddatblygu a chynnal perthynas waith effeithiol gyda phlant a'u rhieni neu ofalwyr mewn 23 o'r 25 achos, ac mewn mwyafrif helaeth o achosion roedd staff yn annog ac yn galluogi'r plentyn i gydymffurfio â gwaith y GCI.

Darparwyd y gwasanaethau sydd fwyaf tebygol o gefnogi ymatal yn y mwyafrif o achosion, gyda rheolwyr achos yn rhoi digon o sylw i ddilyniant a'r amserlenni sydd ar gael. Fodd bynnag, roedd y gwasanaeth a ddarperid yn anghyson o ran materion amrywiaeth, ac yn ddigonol mewn dim ond 11 o'r 25 achos perthnasol. Roedd y broses o gyflawni'r gwaith yn amserol ac yn gymesur, gyda 22 o'r 25 achos yn darparu tystiolaeth dda o gynllunio ar gyfer integreiddio cymunedol olynol/gwasanaethau eraill ar ôl cwblhau cyfranogiad y GCI. Roedd y gwaith o ddarparu gwasanaeth yn adlewyrchu cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn mewn 21 o'r 25 achos.

Dywedodd un arolygydd:

“Roedd darparu ar gyfer ymatal yn gymesur ac yn adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau unigol y plentyn. Cyfeiriwyd yn amserol at wasanaethau camddefnyddio sylweddau, a chwblhawyd ymyriad byr. Cyfeiriodd y rheolwr achos hefyd at Gyrfa Cymru, ond yr oedd y plentyn eisoes wedi dod o hyd i gyflogaeth annibynnol gydag aelod o'r teulu. Roedd tystiolaeth gyson bod y rheolwr achos yn darparu apwyntiadau wedi'u trefnu ar gyfer y GCI a sesiynau ymddygiad troseddol yn ymwneud â chyflogaeth y plentyn, gyda chyswllt rheolaidd â rhieni yn cefnogi'r gwaith a wnaed”.

A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?

Roedd hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn drwy ddarparu gwasanaeth yn amlwg mewn 18 o'r 23 achos perthnasol, gyda rheolwyr achos yn cynnwys asiantaethau eraill i gadw plant yn ddiogel yn y rhan fwyaf o achosion perthnasol. Yn gyffredinol, roedd darparu gwasanaeth yn cefnogi diogelwch y plentyn mewn 18 o'r 25 achos a arolygwyd, a oedd yn welliant sylweddol ar arolygiad Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd yn 2020.

A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?

Ar gyfer cadw pobl eraill yn ddiogel, roedd rheolwyr achos wedi ystyried amddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a phosibl mewn 13 o'r 18 achos perthnasol. Roedd y gwasanaethau a ddarparwyd yn rheoli ac yn lleihau'r risg o niwed yn y rhan fwyaf o achosion perthnasol. Yn gyffredinol, cafodd diogelwch pobl eraill ei gefnogi'n effeithiol mewn 19 o'r 25 achos a arolygwyd, a oedd yn ein galluogi i farnu bod cynnydd yn amlwg yn y maes gwaith hwn ers yr arolygiad diwethaf.

3.4. Polisi a darpariaeth ar gyfer delio ag achosion y tu allan i'r llys



Mae gwasanaeth datrysiadau y tu allan i'r llys o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac mae'n hyrwyddo amrywiaeth ac yn cefnogi ymataliad cynaliadwy.

Angen gwella

Wrth wneud penderfyniad am bolisi a darpariaeth datrysiad y tu allan i'r llys, rydym yn ystyried yr atebion i'r cwestiynau canlynol:

A oes polisi ar waith ar gyfer darpariaeth y tu allan i'r llys sy'n hyrwyddo dargyfeirio priodol ac yn cefnogi ymataliad cynaliadwy?

Ceir polisi datrysiadau y tu allan i'r llys (wedi'i ategu gan siart llif proses biwro) sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau, darparu a chyflawni datrysiadau y tu allan i'r llys a gwaith atal/dargyfeirio. Fodd bynnag, nid oedd polisi datrysiadau y tu allan i'r llys y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a phrosesau a pholisïau y tu allan i'r llys Heddlu De Cymru wedi'u halinio, a oedd yn ddiffyg gan fod rhai anghysonderau yn y canllawiau a'r prosesau.

Mae gan Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd gynnig 'dau ran' ar gyfer dargyfeirio y tu allan i'r llys, yn dibynnu ar risg, angen ac ymwneud blaenorol â'r gwasanaeth. Ers yr arolygiad diwethaf, mae cyflwyno a gweithredu 'model biwro' ym mis Mawrth 2021 wedi bod yn ddatblygiad arwyddocaol. Cynhaliodd y GCI gyfarfodydd ar ddydd Mawrth a dydd Gwener i ddyrannu unrhyw ffurflenni hysbysu F11 a gyflwynwyd gan yr heddlu yn ystod yr wythnos. Ar y pwynt hwn, ystyriwyd a fyddai troseddau lefel is ac is eu difrifoldeb yn cael eu dyrannu i 'Divert' ar gyfer gwaith ataliol, yn hytrach na mynd drwy'r broses biwro ffurfiol.

Cyfeiriwyd pob achos, ac eithrio troseddau difrifol a gyfeiriwyd at Wasanaeth Erllyn y Goron, gan y swyddog yn yr achos at y GCI i benderfynu ar y canlyniad mwyaf priodol. Cyfeiriwyd achosion y bernir eu bod yn addas ar gyfer dedfryd adferol i bobl ifanc at y tîm Divert, a oedd yn defnyddio 'adnodd asesu cryno' pwrpasol ar gyfer yr achosion lefel is perthnasol hynny gan ddarparu unrhyw ymyriadau y tybiwyd eu bod yn briodol. Fodd bynnag, cwblhawyd AssetPlus llawn ar gyfer achosion risg uwch.

Ar gyfer yr achosion hynny a wrandawyd yn y ganolfan, roedd yn rhaid cwblhau'r asesiad o fewn 20 diwrnod. Dyrannwyd yr achos i reolwr achos y GCI, a oedd yn gyfrifol am gyfarfod â'r plentyn a chwblhau asesiad AssetPlus. Cwblhawyd adroddiad ar gyfer y panel hefyd.

Ar ôl cwblhau asesiad ac adroddiad, cafodd yr achos ei gyfeirio at y cyfarfod aml-asiantaeth cyn y biwro, sy'n cynnwys rhingyll yr heddlu, rheolwr y GCI, swyddog dioddefwyr, gwirfoddolwr cymunedol, a chynrychiolwyr camddefnyddio sylweddau, addysg a gofal iechyd. Yn dilyn cyflwyniadau gan y partneriaid hyn, cafodd rhingyll yr heddlu, rheolwr y GCI, y plentyn a'i rieni neu ei ofalwyr, a gwirfoddolwr cymunedol, gyfarfod, lle gwrandawyd ar lais y plentyn, cyn penderfynu ar y canlyniad. Fodd bynnag, teimlai'r arolygwyr y byddai wedi bod yn fuddiol cael y rheolwr achos yn bresennol pan ddaeth y plentyn i'r panel, fel ei fod yn teimlo'n llai gwrthwynebol, a sicrhau bod y plentyn yn deall y broses yn llawn ac yn gallu cymryd rhan effeithiol ynddi. Roedd yr ystod lawn o ganlyniadau ar gael, yn amrywio o ddim camau pellach i gyhuddiad i'r llys. Ategwyd y rhan fwyaf o'r canlyniadau gan ymyriad.

Roedd swyddogion heddlu'r GCI yn cyfathrebu'n rheolaidd â chydweithwyr ehangach yn yr heddlu, i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r broses y tu allan i'r llys a'r ddarpariaeth dargyfeirio. Bu swyddogion heddlu'r GCI yn gwirio systemau'r heddlu ddwywaith bob dydd, er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwybod am unrhyw benderfyniadau posibl y tu allan i'r llys, a'u bod wedi gweithredu fel ymgynghorwyr i gydweithwyr yn y tîm plismona cymdogaeth. Roedd hyn yn sicrhau nad oedd plant y GCI yn llithro drwy'r rhwyd, ac y gallai'r GCI ymgysylltu â phlant perthnasol neu gymwys. Roedd swyddogion heddlu'r GCI yn cynllunio cyfres o ymweliadau â thimau plismona cymdogaeth i godi ymwybyddiaeth, uwchsgilio a datblygu mwy o gyfathrebu ar waith y GCI.

Roedd rheoli risg i eraill, a diogelwch a lles mewn achosion datrysiadau y tu allan i'r llys, yn rhan o bolisiau ehangach y gwasanaeth ar gyfer y meysydd hyn. Ar gyfer achosion yr aseswyd eu bod yn rhai risg uchel yn unrhyw un o'r meysydd niwed, diogelwch a lles, neu aildroseddu, cyfeiriwyd atynt a'u rheoli drwy broses RMP Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd; felly, cawsant yr un goruchwyliaeth a phroses ag achosion ar ôl y llys pan oeddent yn y fforwm hwn.

A yw darpariaeth ar gyfer datrysiad y tu allan i'r llys yn hyrwyddo dargyfeirio ac yn cefnogi ymataliad cynaliadwy?

Y broses a'r disgwyliad oedd bod rheolwr achos y GCI yn cofnodi cyfraniad a barn asiantaethau partner yn eu hadroddiad. Nid oedd gweithwyr cymdeithasol, er enghraifft, yn ymwneud yn uniongyrchol â'r broses o wneud penderfyniadau ar banel y biwro ei hun, ond gallent amlinellu anghenion y plentyn yn y cyfarfod cyn y biwro, a oedd yn sail i'r penderfyniad cyffredinol. Nid oedd partneriaid yn bresennol yn y panel, ond ystyriwyd eu barn a'u hasesiad.

Cynhaliwyd cyfarfod cyn y sesiynau, lle cyfarfu'r gweithwyr proffesiynol i ystyried yr adroddiad. Roedd y biwro yn cynnwys y GCI, Heddlu De Cymru, y gwirfoddolwr cymunedol, a'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr. Roedd y canllawiau lleol ar wneud penderfyniadau yn nodi bod yn rhaid cael cydbwysedd da â barn yr aelod o'r gymuned cyn i'r penderfyniad gael ei gwblhau.

A yw'r polisi a'r ddarpariaeth ar gyfer gwneud datrysiadau y tu allan i'r llys yn cael eu hasesu a'u diweddarau'n rheolaidd er mwyn sicrhau effeithiolrwydd a chynnal cysondeb â'r sylfaen dystiolaeth?

Roedd rheolwr gweithredol y GCI yn cydnabod bod angen adolygu'r polisi datrysiadau y tu allan i'r llys. Gwelwyd newidiadau diweddar mewn arferion, fel symud y panel o orsaf yr heddlu i adeilad y GCI (ar ôl i gyfyngiadau Covid-19 ddod i ben), ac nid oedd hyn wedi cael ei ddiweddarau.

Nid oedd dealltwriaeth o sut y gallai'r gostyngiad mewn newydd-ddyfodiaid fod yn gysylltiedig â'r gwaith mewn perthynas â datrysiadau y tu allan i'r llys. Ni fu cynnydd sylweddol yn y defnydd o ddatrysiadau y tu allan i'r llys, felly roedd hyn yn codi cwestiynau ynghylch lle'r oedd y plant hyn wedi mynd.

Fel rhan o'r dull ehangach o atal a dargyfeirio, cafodd ymyriadau cyfiawnder adferol ar y stryd eu monitro gan yr heddlu, a gellid cynnig cymorth i blant pan oedd pryderon ynghylch diogelu. Dywedwyd wrthym hefyd fod 'Canlyniad 22' wedi'i ddefnyddio mewn rhai achosion.

Roedd rhai achosion wedi llithro ond, yn gyffredinol, roedd yr heddlu'n awyddus i gwblhau'r ymchwiliad, fel nad oedd llawer o oedi cyn i achosion ddod i'r biwro.

Nid oedd tystiolaeth o gyfranogiad gan blant na'u rhieni na'u gofalwyr yn yr adolygiad o ddarpariaeth datrysiadau y tu allan i'r llys. Yn yr un modd, rhoddwyd ychydig iawn o sylw ac ystyriaeth i faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth.

4. Ailsefydlu

4.1. Polisi a darpariaeth ailsefydlu



Mae gwasanaeth ailsefydlu o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant sy'n gadael caethiwed.

Da

Rydym wedi edrych ar ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer gwaith ailsefydlu, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau. I ddangos y gwaith hwnnw, bu i ni arolygu tri achos a oedd yn cael eu rheoli gan y GCI a oedd wedi cael dedfryd o garchar. Roedd ein prif ganfyddiadau fel a ganlyn:

Cryfderau

- Mae polisi adsefydlu clir wedi'i ddatblygu'n ddiweddar, sy'n seiliedig ar egwyddorion adsefydlu adeiladol.
- Dangosodd ymarferwyr y GCI lefel uchel o eiriolaeth ar gyfer plant y GCI sydd yn y ddalfa.
- Roedd y ddarpariaeth a'r gwaith partneriaeth o ansawdd da ar draws y llwybrau allweddol ar gyfer llety, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a gofal iechyd.
- Ceir cyfathrebu da, gyda chysylltiadau gweithio cadarnhaol, rhwng y GCI a staff yr ystâd ddiogeled.
- Mae gan y GCI weithwyr adsefydlu penodol, sy'n gweithio ochr yn ochr â rheolwyr achos i sicrhau perthynas gyson ac i gefnogi anghenion adsefydlu plant sydd yn y ddalfa.
- Mae gan y GCI draciwr adsefydlu, sy'n darparu dadansoddiad fesul achos ac yn monitro'r plant hynny sydd yn y ddalfa. Mae hyn yn gweithredu fel mecanwaith i sicrhau bod yr holl asiantaethau partner perthnasol yn cadw at y llwybrau a'r gwasanaethau perthnasol.

Meysydd i'w gwella

- Nid yw'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant adsefydlu penodol – er bod bwriad i ddarparu rhagor o hyfforddiant yn ystod y flwyddyn nesaf.

Casglwyd tystiolaeth ar gyfer y safon hon o ddogfennau a chyfarfodydd, ac arolygwyd tri achos er mwyn i ni allu dangos y safonau ansoddol. Nid ydym yn darparu sgôr ar wahân ar gyfer ansawdd y gwaith mewn achosion adsefydlu a arolygwyd o dan y safon hon. Wrth wneud penderfyniad am bolisi a darpariaeth ailsefydlu, rydym yn ystyried yr atebion i'r tri chwestiwn canlynol:

A oes polisi ailsefydlu ar waith sy'n hyrwyddo gwasanaeth ailsefydlu personol, adeiladol ac o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn?

Roedd gan Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd bolisi adsefydlu a oedd yn nodi camau gweithredu ac amserlenni mewn perthynas â phlant a ddedfrydwyd i'r ddalffa. Roedd y polisi hwn yn cyd-fynd â chanllawiau ymarfer rheoli achosion Caerdydd, a oedd yn amlinellu y byddai rheolwr achos cyfiawnder ieuenctid yn cael ei ddyrannu iddynt ar ôl i blentyn gael ei roi yn y ddalffa a'i gysylltu â gweithiwr adsefydlu ym maes cyfiawnder ieuenctid. Roedd y polisi'n gosod disgwyliadau a chamau gweithredu clir ar gyfer pob agwedd ar weithgarwch adsefydlu (cyn ac ar ôl rhyddhau), ac yn canolbwyntio ar gynllunio ar draws y saith llwybr, a oedd yn cynnwys llety, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, gofal iechyd a chyswllt â theulu neu ofalwyr y plentyn. Roedd hyn yn cynnwys deall anghenion y teulu cyfan, ac ystyried meysydd allweddol cynllunio a darparu dedfrydau, fel ymweliadau, defnyddio rhyddhau ar drwydded dros dro, pontio a phlant ag anghenion addysgol arbennig.

Ystyriwyd yr asesiad risg a'r cynlluniau rhyddhau dilynol yn y cyfarwyddiadau ar gyfer cwblhau AssetPlus. Mae'r rhain hefyd yn nodi'r fframwaith ar gyfer rheoli risg plentyn. Ar ben hynny, roedd y polisi'n sicrhau bod staff yn cael eu cyfeirio at bolisiau ategol (fel diogelu, gwaith ar y cyd â gofal cymdeithasol plant, a pholisi risg niwed a diogelwch a lles y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid), a oedd, gyda'i gilydd, yn nodi'r camau gweithredu ar gyfer achosion a oedd yn cael eu rheoli'n lleol o fewn trefniadau RMP GCI Caerdydd, neu a oedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer MAPPA a rheoli troseddwy'r integredig.

Er nad oedd y polisi'n mynd i'r afael yn uniongyrchol ag anghenion amrywiaeth, roedd yn nodi fframwaith clir ar gyfer cyflawni gwaith o fewn egwyddorion adsefydlu adeiladol a chefnogi newid hunaniaeth plentyn. Roedd y gwasanaethau hyn yn darparu ymyriadau unigol a lefel uchel o gefnogaeth i blant ag anghenion cymhleth. Byddai'r polisi wedi cael ei wella ymhellach drwy ystyried sut y byddai'n mynd i'r afael â materion amrywiaeth ac anghymesuredd yng ngharfan y GCI, a thrwy ddefnyddio adborth a chyfranogiad plant i'w siapio ymhellach.

Dim ond yn ddiweddar yr oedd y GCI wedi cyflwyno'r polisi, ym mis Chwefror 2022, er bod elfennau allweddol wedi cael eu gweithredu'n anffurfiol cyn hyn. Roedd y staff yn ymwybodol o'r ffordd yr oedd yn cael ei weithredu, drwy drafodaeth mewn cyfarfodydd tîm a fforymau datblygu.

A yw'r ddarpariaeth ailsefydlu yn hyrwyddo gwasanaeth ailsefydlu personol, adeiladol ac o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn?

Roedd y ddarpariaeth ailsefydlu'n seiliedig ar ddull ailsefydlu adeiladol, wedi'i gefnogi gan wasanaethau sy'n darparu lefel uchel o gefnogaeth ac ymyriadau pwrpasol. Manteisiodd y GCI ar grŵp o staff medrus a phrofiadol a oedd yn delio â'r llys, remand, cymorth mechnïaeth a chystodaeth. Roeddent wedi datblygu dull seiliedig ar berthynas ar gyfer gwaith adsefydlu gyda gweithwyr proffesiynol eraill, a oedd yn sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at lwybrau ac ymyriadau perthnasol yn y rhan fwyaf o achosion. Roedd y gweithwyr hyn hefyd yn canolbwyntio'n gryf ar alluogi cyswllt â theuluoedd – a adlewyrchwyd ym mhob un o'r tri achos a arolygwyd gennym.

O fewn yr achosion adsefydlu perthnasol, gwelodd yr arolygwyr dystiolaeth o eiriolaeth mewn perthynas â lleoli plant y GCI. Roedd un o'r plant yn destun dedfryd dan glo adran 91, ac roedd ei achos i'w glywed mewn cyfarfod parôl cyn ei ryddhau ar drwydded gorchymyn cadw a hyfforddi cydamserol, felly roedd cynllunio ar gyfer y ddau yn cael ei wneud ar y cyd. Sicrhawyd dau gyfeiriad tua phum wythnos cyn eu rhyddhau a chafodd y plentyn gyfle i ddewis yr un yr oedd arno ei eisiau. Roedd yr

ail blentyn wedi bod yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal pan aeth i'r ddalfa, felly roedd y GCI a'r gweithiwr cymdeithasol bob amser yn gwybod y byddai angen llety arno. Yn dilyn hynny, daethpwyd o hyd i leoliad y tu allan i'r ardal a chytunodd i fynd yno. Fodd bynnag, nododd yr arolygydd bod y lleoliad hwn wedi cael ei nodi dim ond diwrnodau cyn i'r plentyn gael ei ryddhau, er bod y GCI wedi codi'r achos hwn yn y panel ailsefydlu newydd yn y tri mis cyn iddo gael ei ryddhau.

Mewn dau o'r tri achos a arolygwyd, rhoddwyd sylw digonol i anghenion Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth. Mae'n werth nodi'r gwaith a wnaed gyda phlentyn sy'n bwrw dedfryd hir. Er nad oedd i fod i gael ei ryddhau am nifer o flynyddoedd, roedd y GCI yn dal i argymhell ac yn sicrhau bod materion Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth yn cael sylw. Roedd y plentyn wedi dilyn cyrsiau Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth tra ar remand – gan gynnwys mewn seicoleg, coginio a thrin gwallt. Ar ôl cael ei ddedfrydu a'i drosglwyddo i garchar i oedolion, roedd y plentyn yn cael ei gyflogi fel barbwr, yn mynychu'r gampfa, ac roedd i fod i gofrestru ar gwrs gradd seicoleg.

Unwaith eto, mewn dau o bob tri achos, rhoddwyd digon o sylw i anghenion gofal iechyd. Mewn un achos, cafodd y plentyn ei weld gan staff gofal iechyd yn Sefydliad Troseddwy'r Ifanc EM Parc, ynghylch rhoi'r gorau i heroin. Gan nad oedd ganddo gyfeiriad wedi'i gadarnhau tan y dyddiau cyn iddo gael ei ryddhau, nid oedd yn bosibl ei gysylltu â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i oedolion cyn iddo gael ei ryddhau. Ar ôl iddo gael ei ryddhau, roedd yn ei ddefnyddio eto o fewn cyfnod byr iawn.

Dangosodd yr arolwg staff fod hanner (pedwar o bob wyth) y staff perthnasol hynny wedi derbyn hyfforddiant adsefydlu penodol. Nodwyd bod hwn yn faes o flaenoriaeth a datblygiad o fewn tîm arweinyddiaeth y GCI ac roedd cynlluniau i gyflwyno rhagor o hyfforddiant yn ystod y flwyddyn nesaf.

Roedd y ddarpariaeth ailsefydlu wedi rhoi digon o sylw i gadw plant yn ddiogel. Disgrifiodd staff a rheolwyr y GCI gysylltiadau cryf gyda Hillside, y cartref diogel i blant lleol, a Parc, y Sefydliad Troseddwy'r Ifanc agosaf, gan ganiatáu ymweliadau hygyrch a chyfranogiad rhagweithiol mewn cyfarfodydd RMP. Disgrifiodd rheolwr dynodedig y GCI ar gyfer ailsefydlu gyfathrebu da gyda rheolwyr cyfatebol ym maes diogelu gofal cymdeithasol a'r tîm gadael gofal – a ategwyd gan y rheolwr gofal cymdeithasol cyswllt, ac a ddisgrifiwyd fel "amwys" o'i safbwynt hi. Roedd y tri achos yn achosion Plant sy'n Derbyn Gofal a gwelsom fod y gwaith i ymateb i'w hanghenion amrywiaeth yn ddigonol ym mhob achos.

Yng nghyfarfod yr ymarferwyr adsefydlu, clywsom fod gan HMYOI Parc weithiwr cyswllt dynodedig, a oedd yn cefnogi'r broses o bontio o'r ddalfa i'r gymuned drwy ymweliadau â phlant a oedd wedi cael eu rhyddhau o'r ddalfa yn ddiweddar. Gwelsom dystiolaeth o hyn yn un o'r achosion a arolygwyd.

O ran cadw eraill yn ddiogel, yn y tri achos gwelwyd digon o dystiolaeth o waith ar y cyd a rhannu gwybodaeth – unwaith eto, gyda chefnogaeth gweithdrefnau'r RMP a/neu MAPPA. Roedd proses RMP yn ystyried trwyddedau, er mwyn sicrhau bod y bartneriaeth yn cytuno i amodau trwydded. Roedd hyn wedyn yn cael ei fwydo i gyfarfodydd cynllunio cystodaeth. Dywedwyd wrthym fod yr holl blant sydd yn y ddalfa ar hyn o bryd yn cael eu rheoli drwy broses RMP.

Ym mhob un o'r tri achos adsefydlu a arolygwyd, roedd gwaith gyda dioddefwyr yn ddigonol. Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau, fel defnyddio amodau trwydded ychwanegol, cysylltu â swyddog cyswllt dioddefwyr y Gwasanaeth

Prawf a rhannu gwybodaeth yn glir ac yn gyflym, er mwyn sicrhau camau gorfodi a galw yn ôl priodol pan fo angen.

A yw'r polisi a'r ddarpariaeth ailsefydlu yn cael eu hasesu a'u diweddarau'n rheolaidd er mwyn sicrhau effeithiolrwydd a chynnal cysondeb â'r sylfaen dystiolaeth?

Dim ond yn ddiweddar y cyflwynwyd y polisi adsefydlu ffurfiol, ym mis Chwefror 2022. Roedd yn seiliedig ar egwyddorion ailsefydlu adeiladol, ac adolygiad o'r arferion anffurfiol o fewn y tîm a chanllawiau'r safonau cenedlaethol mewn perthynas ag arferion adsefydlu effeithiol. Roedd is-bwyllgor y bwrdd wedi ymgymryd â gwaith allweddol i ddatblygu a gweithredu'r polisi adsefydlu, a oedd wedyn wedi mynd i fwrdd rheoli'r GCI ar gyfer craffu a chymeradwyo ymhellach.

Fe'n calonogwyd i weld bod bwrdd rheoli'r GCI wedi datblygu traciwr adsefydlu, a oedd yn caniatáu i garfan cystodaeth y GCI gael ei nodi ar lefel achos, ac eto'n cael ei holrhain i sicrhau bod y gwaith angenrheidiol yn cael ei wneud yn unol â'r amserlenni a'r pwyntiau allweddol yn y ddedfryd, a bod cydlynu'r gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r plentyn yn effeithiol.

Atodiad 1: Methodoleg

Safonau Arolygiaeth Prawf EM

Mae'r safonau rydyn ni'n arolygu'r gwasanaethau troseddau ieuencid yn eu herbyn yn seiliedig ar fodelau a fframweithiau sefydledig, sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth, dysg a phrofiad. Nod y safonau hyn yw sbarduno gwelliannau yn ansawdd y gwaith gyda phlant sydd wedi troseddu.²²

Mae'r fethodoleg arolygu wedi'i chrynhoi isod, ac wedi'i chysylltu â'r tri pharth yn ein fframwaith safonau. Gwnaethom ganolbwyntio ar gael dystiolaeth yn erbyn y safonau, y cwestiynau a'r awgrymiadau allweddol yn ein fframwaith arolygu.

Parth un: darpariaeth sefydliadol

Cyflwynodd y gwasanaeth cyfiawnder ieuencid dystiolaeth ymlaen llaw. Yn ogystal, rhoddodd Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Caerdydd a chadeirydd annibynnol bwrdd rheoli GCI Caerdydd a rheolwr gweithredol y GCI gyflwyniad ar y meysydd canlynol:

- Sut mae trefniadau ar gyfer darpariaeth sefydliadol yn y maes hwn yn gwneud yn siŵr bod gwaith eich gwasanaeth troseddau ieuencid mor effeithiol ag y gall fod, a bod cyfleoedd mewn bywyd y plant sydd wedi troseddu yn cael eu gwella?
- Beth yw eich blaenoriaethau ar gyfer gwella'r trefniadau hyn ymhellach?

Yn ystod y prif gyfnod gwaith maes, cynhaliwyd 27 chyfweliad gyda rheolwyr achos, gan ofyn iddynt am eu profiadau o ran hyfforddiant, datblygiad, goruchwyliaeth ac arweinyddiaeth gan reolwyr. Cynhaliwyd amrywiol gyfarfodydd, ac roedd y rhain wedi ein galluogi i driongli dystiolaeth a gwybodaeth. Cynhaliwyd cyfanswm o 22 cyfarfod, a oedd yn cynnwys cyfarfodydd gyda rheolwyr, sefydliadau partner a staff. Casglwyd dystiolaeth ychwanegol gan ein harolygwyr partner drwy gyfweiliadau, cyfarfodydd a sylwadau. Cafodd y dystiolaeth a gasglwyd o dan y parth hwn ei barnu yn erbyn nodweddion y sgoriau roeddem wedi'u cyhoeddi.²³

Parth dau: datrysiadau yn y llys

Gwnaethom gwblhau asesiadau achos dros gyfnod o wythnos, gan archwilio ffeiliau achos a chyfweld rheolwyr achos. Roedd deugain y cant o'r achosion a ddewiswyd yn ymwneud â phlant a oedd wedi derbyn datrysiadau yn y llys rhwng chwech a naw mis yn gynharach, a oedd yn ein galluogi i archwilio gwaith mewn perthynas ag asesu, cynllunio, gweithredu ac adolygu. Lle bo angen, cynhaliwyd cyfweiliadau gyda phobl eraill a oedd yn ymwneud yn sylweddol â'r achos hefyd.

Gwnaethom archwilio 13 o ddatrysiad yn y llys. Pennwyd maint y sampl i sicrhau lefel hyder o 80 y cant (gyda goddefiant gwall o bump), a gwnaethom sicrhau bod y cymarebau mewn perthynas â rhyw, dedfryd neu fath o ddatrysiad, risg o niwed difrifol, a risg i ddiogelwch a lles yn cyfateb i'r rhai yn y boblogaeth gymwys.

²² Mae safonau Arolygiaeth EM ar gael yma:

<https://www.justiceinspectors.gov.uk/hmiprobation/about-our-work/our-standards-and-ratings/>.

Parth tri: datrysiadau y tu allan i'r llys

Gwnaethom gwblhau asesiadau achos dros gyfnod o wythnos, gan archwilio ffeiliau achos a chyfweld rheolwyr achos. Roedd chwe deg y cant o'r achosion a ddewiswyd yn ymwneud â phlant a oedd wedi derbyn datrysiadau y tu allan i'r llys dri i bum mis yn gynharach. Roedd hyn yn ein galluogi i archwilio gwaith mewn perthynas ag asesu, cynllunio, a gweithredu a darparu. Lle bo angen, cynhaliwyd cyfweiliadau gyda phobl eraill a oedd yn ymwneud yn sylweddol â'r achos hefyd.

Gwnaethom archwilio 25 datrysiad y tu allan i'r llys. Pennwyd maint y sampl ar sail cyfran y datrysiadau y tu allan i'r llys yn y GCI.

Ailsefydlu

Fe wnaethom gwblhau asesiadau achos dros gyfnod o wythnos, gan archwilio tair ffeil achos a chyfweld rheolwyr achos, mewn achosion lle'r oedd plant wedi cael dedfryd o gystodaeth neu wedi cael eu rhyddhau o ddedfrydau o gystodaeth rhwng pedwar a 12 mis ynghynt. Roedd hyn yn ein galluogi i gasglu gwybodaeth i ddangos effaith polisi a darpariaeth ailsefydlu ar ddarparu gwasanaethau. Lle bo angen, cynhaliwyd cyfweiliadau gyda phobl eraill a oedd yn ymwneud yn sylweddol â'r achos hefyd.


Mewn rhai rhannau o'r adroddiad hwn, efallai fod y data wedi'i rannu'n is-samplau llai – er enghraifft, achosion gwrywod/benywod. Yn yr achosion hynny, efallai bod y goddefiant gwall ar gyfer canfyddiadau'r is-sampl fod yn uwch na phump.

Atodiad 2: Data arolygu

Yn yr arolygiad hwn, gwnaethom gynnal archwiliad manwl o sampl o 13 o ddatrysiad yn y llys a 25 datrysiad y tu allan i'r llys. Ym mhob un o'r achosion hynny, rydym yn arolygu yn erbyn safonau mewn perthynas ag asesu, cynllunio, a gweithredu/darparu. Ar gyfer datrysiadau yn y llys, rydym hefyd yn edrych ar adolygu. Ar gyfer pob safon, mae'r arolygwyr yn ateb nifer o gwestiynau allweddol am wahanol agweddau ar ansawdd, gan gynnwys a oedd dadansoddiad digonol o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â throeddu; i ba raddau yr oedd y troseddwyd ifanc yn ymwneud ag asesu a chynllunio; ac a wnaed digon i asesu lefel y risg o niwed, ac i reoli'r risg honno. Bu i ni adolygu tri achos arall i gael data i ddangos ein canfyddiadau am ddarpariaeth a pholisi adsefydlu.

Er mwyn cael sgôr 'Rhagorol' ar gyfer yr adrannau ar ddatrysiadau yn y llys neu ddatrysiadau y tu allan i'r llys, mae'n rhaid i 80 y cant neu fwy o'r achosion a ddadansoddwn gael eu hasesu fel rhai digonol. Os bernir bod rhwng 65 y cant a 79 y cant yn ddigonol, yna caiff sgôr 'Da' ac os bernir bod rhwng 50 y cant a 64 y cant yn ddigonol, yna rhoddir sgôr 'Angen gwella'. Yn olaf, os yw llai na 50 y cant yn ddigonol, yna caiff sgôr 'Annigonol'. Nid yw achosion ailsefydlu yn cael eu sgorio ar wahân; mae'r data at ddibenion enghreifftiol yn unig.

Mae'r sgôr ar gyfer pob safon wedi'i halinio â'r band ar lefel y cwestiwn allweddol lle barnwyd bod y gyfran isaf o achosion yn ddigonol, gan ein bod yn credu bod pob un o'r cwestiynau allweddol yn rhan annatod o'r safon. Felly, os ydym yn rhoi sgôr 'Da' i dri chwestiwn allweddol a sgôr 'Annigonol' i un, y sgôr gyffredinol ar gyfer y safon honno yw 'Annigonol'.

Y band isaf (cyfran yr achosion y bernir eu bod yn ddigonol ar lefel y cwestiynau allweddol)	Sgôr (safonol)
Lleiafrif: <50%	Annigonol
Dim digon: 50-64%	Angen gwella
Mwyafrif rhesymol: 65-79%	Da
Mwyafrif helaeth: 80%+	Rhagorol 

Mae rheolau sgorio ychwanegol yn cael eu defnyddio i greu sgôr gyffredinol y timau troseddau ieuencid. Mae'r 12 safon yn cael eu sgorio ar raddfa o 0 i 3, lle mae 'Annigonol' = 0; 'Angen gwella' = 1; 'Da' = 2; a 'Rhagorol' = 3. Mae adio'r sgoriau hyn yn creu cyfanswm sgôr sydd rhwng 0 a 36, sy'n cael ei bandio i greu sgôr gyffredinol, fel a ganlyn:

- 0–6 = Annigonol
- 7–18 = Angen gwella
- 19–30 = Da
- 31–36 = Rhagorol.

Mae safonau parth un, y safon ansoddol ym mharth tri (safon 3.4) a'r safon ailsefydlu (safon 4.1) yn cael eu barnu gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol yn bennaf.

Mae'r safon ailsefydlu yn cael ei sgorio ar wahân, ac nid yw'n dylanwadu ar sgôr gyffredinol y timau troseddau ieuenctid. Rydym yn defnyddio barn gyfyngus, lle nad yw unrhyw dîm troseddau ieuenctid sy'n cael sgôr 'Annigonol' ar gyfer y safon ailsefydlu yn gallu cael sgôr 'Rhagorol' gyffredinol, ni waeth sut mae'n cael ei sgorio yn erbyn y safonau craidd. Lle nad oes achosion ailsefydlu perthnasol, nid ydym yn rhoi sgôr i waith ailsefydlu.

Data o achosion a arolygwyd:²⁴

2.1. Asesu (datrysiaidau yn y llys)	
A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?	
a) A oes dadansoddiad digonol o ymddygiad troseddol, gan gynnwys agwedd y plentyn tuag at droseddu a'r hyn sy'n ei gymell?	77%
b) A yw'r asesiad yn dadansoddi materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn ddigonol?	54%
c) A yw'r asesiad yn ystyried amgylchiadau personol, gan gynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn?	92%
d) A yw'r asesiad yn defnyddio gwybodaeth a ddelir gan asiantaethau eraill?	77%
e) A yw'r asesiad yn canolbwyntio ar gryfderau a ffactorau diogelu'r plentyn?	77%
f) A yw'r asesiad yn dadansoddi'r prif rwystrau strwythurol sy'n wynebu'r plentyn?	77%
g) A roddir digon o sylw i ddeall lefelau aeddfedrwydd, gallu a chymhelliant y plentyn i newid, a'i debygolrwydd o ymwneud â datrysiaid y llys?	85%
h) A yw'r asesiad yn rhoi sylw digonol i anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr, a chyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol?	54%
i) A yw'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon yn ei asesiad, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried?	77%
A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?	
a) A yw'r asesiad yn nodi'n glir ac yn dadansoddi unrhyw risgiau i ddiogelwch a lles y plentyn?	54%
b) A yw'r asesiad yn gwneud defnydd digonol o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys asesiadau eraill, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol?	54%
c) A yw'r asesiad yn dadansoddi rheolaethau ac ymyriadau i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn?	54%

²⁴ Nid yw rhai o'r cwestiynau'n berthnasol ym mhob achos.

A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?	
a) A yw'r asesiad yn nodi ac yn dadansoddi'n glir unrhyw risg o niwed i eraill gan y plentyn, gan gynnwys nodi pwy sy'n wynebu risg a natur y risg honno?	31%
b) A yw'r asesiad yn gwneud defnydd digonol o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys ymddygiad ac euogfarnau blaenorol, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol?	46%
c) A yw'r asesiad yn dadansoddi rheolaethau ac ymyriadau i reoli a lleihau i'r eithaf y risg o niwed a achosir gan y plentyn?	31%

2.2. Cynllunio (datrysiadau yn y llys)

A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?

a) A yw'r gwaith cynllunio'n nodi'r gwasanaethau sydd fwyaf tebygol o gefnogi ymataliad, gan roi sylw digonol i'r amserlenni sydd ar gael a'r angen am ddilyniant?	38%
b) A yw'r gwaith cynllunio yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn ddigonol?	46%
c) A yw'r gwaith cynllunio'n rhoi digon o sylw i amgylchiadau personol y plentyn, gan gynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn?	69%
d) A yw'r gwaith cynllunio'n ystyried cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn yn ddigonol, ac yn ceisio atgyfnerthu neu ddatblygu'r rhain yn ôl yr angen?	62%
e) A yw'r gwaith cynllunio'n rhoi digon o sylw i lefelau aeddfedrwydd, gallu a chymhelliant y plentyn i newid, ac yn ceisio datblygu'r rhain yn ôl yr angen?	62%
f) A yw'r gwaith cynllunio yn rhoi sylw digonol i anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr?	46%
g) A yw'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon yn y broses gynllunio, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried?	69%

A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?

a) A yw'r gwaith cynllunio'n hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn, ac yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r risgiau?	54%
---	-----

b) A yw'r gwaith cynllunio'n cynnwys asiantaethau eraill lle bo hynny'n briodol, ac a oes digon o gysondeb â chynlluniau eraill (e.e. cynlluniau amddiffyn plant neu gynlluniau gofal) sy'n ymwneud â'r plentyn?	54%
c) A yw'r gwaith cynllunio'n nodi'r rheolaethau a'r ymyriadau angenrheidiol i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn?	38%
d) A yw'r gwaith cynllunio'n nodi trefniadau wrth gefn angenrheidiol ac effeithiol i reoli'r risgiau hynny sydd wedi'u nodi?	23%
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	
a) A yw'r gwaith cynllunio'n hyrwyddo diogelwch pobl eraill, ac yn rhoi sylw digonol i ffactorau risg o niwed?	46%
b) A yw'r gwaith cynllunio'n cynnwys asiantaethau eraill lle bo hynny'n briodol?	54%
c) A yw'r gwaith cynllunio yn mynd i'r afael ag unrhyw risgiau a phryderon penodol sy'n gysylltiedig â dioddefwyr gwirioneddol a phosibl?	31%
d) A yw'r gwaith cynllunio'n nodi'r rheolaethau a'r ymyriadau angenrheidiol i hyrwyddo diogelwch pobl eraill?	31%
e) A yw'r gwaith cynllunio'n nodi trefniadau wrth gefn angenrheidiol ac effeithiol i reoli'r risgiau hynny sydd wedi'u nodi?	15%

2.3. Gweithredu a darparu (datrysiadau yn y llys)

A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol?

a) Ai'r gwasanaethau a ddarperir yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o gefnogi ymataliad, gan roi sylw digonol i ddilyniant a'r amserlenni sydd ar gael?	69%
b) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn rhoi cyfrif am faterion amrywiaeth y plentyn?	54%
c) A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn adlewyrchu cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn, gan gynnwys rhieni neu ofalwyr, neu bobl arwyddocaol eraill?	77%
d) A yw darparu gwasanaethau'n adeiladu ar gryfderau'r plentyn ac yn gwella ffactorau amddiffynnol?	85%
e) A roddir digon o ffocws ar ddatblygu a chynnal perthynas waith effeithiol â'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr?	92%
f) A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer integreiddio cymunedol, gan gynnwys mynediad at wasanaethau ar ôl goruchwyliaeth?	92%

g) A roddir digon o sylw i annog a galluogi'r plentyn i gydymffurfio â gwaith y timau troseddau ieuenctid?	85%
h) A yw camau gorfodi'n cael eu cymryd pan fo hynny'n briodol?	23%
A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?	
a) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn?	69%
b) A yw'r gwaith o gynnwys asiantaethau eraill i gadw'r plentyn yn ddiogel yn cael ei gyd-drefnu'n dda?	69%
A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?	
a) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn ddigon i reoli a lleihau'r risg o niwed?	62%
b) A roddir digon o sylw i amddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl?	46%
c) A yw cyfranogiad asiantaethau eraill o ran rheoli'r risg o niwed wedi'i gyd-drefnu'n ddigonol?	62%

2. 4. Adolygu (datrysiadau yn y llys)

A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?

a) A yw adolygu yn canfod ac yn ymateb i newidiadau mewn ffactorau sy'n gysylltiedig ag ymataliad?	69%
b) A yw adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar adeiladu ar gryfderau'r plentyn ac yn gwella ffactorau amddiffynnol?	69%
c) A yw'r gwaith adolygu yn cynnwys dadansoddiad o ffactorau amrywiaeth, ac yn ymateb iddynt?	33%
c) A yw adolygu'n ystyried yr amgylchiadau personol, gan gynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn?	69%
d) A yw'r gwaith adolygu yn ystyried lefelau cymhelliant ac ymgysylltu ac unrhyw rwystrau perthnasol?	69%
e) A yw'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrllon yn y gwaith o adolygu ei gynnydd a'i ymgysylltu, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried?	69%
f) A yw adolygu yn arwain at addasiadau angenrheidiol yn y cynllun parhaus o'r gwaith i gefnogi ymataliad?	46%

A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?	
a) A yw adolygu yn canfod ac yn ymateb i newidiadau mewn ffactorau sy'n gysylltiedig â diogelwch a lles?	46%
b) A yw'r gwaith adolygu'n cael ei oleuo gan y mewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn?	54%
c) A yw adolygu yn arwain at addasiadau angenrheidiol yn y cynllun parhaus o'r gwaith i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn?	38%
A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	
a) A yw adolygu yn canfod ac yn ymateb i newidiadau mewn ffactorau sy'n gysylltiedig â'r risg o niwed?	31%
b) A yw'r gwaith adolygu'n cael ei oleuo gan y mewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â rheoli'r risg o niwed?	46%
c) A yw adolygu yn arwain at addasiadau angenrheidiol yn y cynllun parhaus o'r holl waith i reoli ac i leihau'r risg o niwed?	31%

3.1. Asesu (datrysiadau y tu allan i'r llys)

A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?	
a) A oes dadansoddiad digonol o ymddygiad troseddol, gan gynnwys cydnabyddiaeth y plentyn am ei gyfrifoldeb dros droseddu, a'i agwedd tuag at droseddu a'r hyn sy'n ei gymell?	84%
b) A yw'r asesiad yn dadansoddi materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn ddigonol?	40%
c) A yw'r asesiad yn ystyried amgylchiadau personol, gan gynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn?	80%
d) A yw'r asesiad yn defnyddio gwybodaeth a ddelir gan asiantaethau eraill?	60%
e) A yw'r asesiad yn canolbwyntio ar gryfderau a ffactorau diogelu'r plentyn?	80%
f) A yw'r asesiad yn dadansoddi'r prif rwystrau strwythurol sy'n wynebu'r plentyn?	48%
g) A roddir sylw digonol i ddeall lefelau aeddfedrwydd, gallu a chymhelliant y plentyn i newid?	76%
h) A yw'r asesiad yn rhoi sylw digonol i anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr, a chyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol?	40%

i) A yw'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon yn ei asesiad, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried?	88%
A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?	
a) A yw'r asesiad yn nodi'n glir ac yn dadansoddi unrhyw risgiau i ddiogelwch a lles y plentyn?	56%
b) A yw'r asesiad yn gwneud defnydd digonol o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys asesiadau eraill, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol?	52%
A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?	
a) A yw'r asesiad yn nodi ac yn dadansoddi'n glir unrhyw risg o niwed i eraill gan y plentyn, gan gynnwys nodi pwy sy'n wynebu risg a natur y risg honno?	52%
b) A yw'r asesiad yn gwneud defnydd digonol o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys unrhyw asesiadau eraill sydd wedi'u cwblhau, a thystiolaeth arall o ymddygiad y plentyn?	67%

3.2. Cynllunio (datrysiadau y tu allan i'r llys)

A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio ar gefnogi ymataliad y plentyn?

a) A yw'r gwaith cynllunio'n nodi'r gwasanaethau sydd fwyaf tebygol o gefnogi ymataliad, gan roi sylw digonol i'r amserlenni sydd ar gael a'r angen am ddilyniant?	84%
b) A yw'r gwaith cynllunio yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn ddigonol?	48%
c) A yw'r gwaith cynllunio'n rhoi digon o sylw i amgylchiadau personol y plentyn, gan gynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn?	84%
d) A yw'r gwaith cynllunio'n ystyried cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn yn ddigonol, ac yn ceisio atgyfnerthu neu ddatblygu'r rhain yn ôl yr angen?	84%
e) A yw'r gwaith cynllunio'n rhoi digon o sylw i lefelau aeddfedrwydd, gallu a chymhelliant y plentyn i newid, ac yn ceisio datblygu'r rhain yn ôl yr angen?	80%
f) A yw'r gwaith cynllunio'n rhoi digon o ystyriaeth i gyfleoedd ar gyfer integreiddio cymunedol, gan gynnwys mynediad at wasanaethau prif ffrwd ar ôl cwblhau'r gwaith datrys y tu allan i'r llys?	92%
g) A yw'r gwaith cynllunio yn rhoi sylw digonol i anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr?	40%

h) A yw'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon yn y broses gynllunio, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried?	80%
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?	
a) A yw'r gwaith cynllunio'n hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn, ac yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r risgiau?	64%
b) A yw'r gwaith cynllunio'n cynnwys asiantaethau eraill lle bo hynny'n briodol, ac a oes digon o gysondeb â chynlluniau eraill (e.e. cynlluniau amddiffyn plant neu gynlluniau gofal) sy'n ymwneud â'r plentyn?	52%
c) A yw'r gwaith cynllunio'n cynnwys trefniadau wrth gefn angenrheidiol ar gyfer y risgiau hynny sydd wedi'u nodi?	32%
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	
a) A yw'r gwaith cynllunio'n hyrwyddo diogelwch pobl eraill, ac yn rhoi sylw digonol i ffactorau risg o niwed?	48%
b) A yw'r gwaith cynllunio'n cynnwys asiantaethau eraill lle bo hynny'n briodol?	40%
c) A yw'r gwaith cynllunio yn mynd i'r afael ag unrhyw risgiau a phryderon penodol sy'n gysylltiedig â dioddefwyr gwirioneddol a phosibl?	35%
d) A yw'r gwaith cynllunio'n cynnwys trefniadau wrth gefn angenrheidiol ar gyfer y risgiau hynny sydd wedi'u nodi?	20%

3.3. Gweithredu a darparu (datrysiadau y tu allan i'r llys)

A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol?	
a) Ai'r gwasanaethau a ddarperir yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o gefnogi ymataliad, gan roi sylw digonol i ddilyniant a'r amserlenni sydd ar gael?	80%
b) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn rhoi cyfrif am faterion amrywiaeth y plentyn?	44%
c) A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn adlewyrchu cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn, gan gynnwys rhieni neu ofalwyr, neu bobl arwyddocaol eraill?	84%
d) A roddir digon o ffocws ar ddatblygu a chynnal perthynas waith effeithiol â'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr?	92%
e) A roddir digon o sylw i annog a galluogi'r plentyn i gydymffurfio â gwaith y timau troseddau ieuencid?	88%

f) A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer integreiddio cymunedol, gan gynnwys mynediad at wasanaethau prif ffrwd?	88%
A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?	
a) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn?	72%
b) A yw'r gwaith o gynnwys asiantaethau eraill i gadw'r plentyn yn ddiogel yn cael ei ddefnyddio a'i gyd-drefnu'n dda?	63%
A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?	
a) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn ddigon i reoli a lleihau'r risg o niwed?	52%
b) A roddir digon o sylw i amddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl?	54%